# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 24 Ionawr 2022

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

13.30

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

13.30 - 13.35 (Tudalennau 1 - 3)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-22 - Papur 1 - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

**2.1 SL(6)127 - Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru) 2022**

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

13.35 - 13.40

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

**3.1 SL(6)135 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2022**

(Tudalennau 4 - 7)

Rheoliadau

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-22 - Papur 2 - Adroddiad drafft

LJC(6)-03-22 - Papur 3 – Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd, 14 Ionawr 2022

## 4 Fframweithiau cyffredin

13.45 - 13.50

### 4.1 Fframwaith Cyffredin Arfaethedig ar gyfer Amddiffyn Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd

(Tudalennau 8 - 16)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-22 - Papur 4 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2022

LJC(6)-03-22 - Papur 5 – Llythyr gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 26 Tachwedd 2021

### 4.2 Fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer diogelwch ac ansawdd gwaed a'r Fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau)

(Tudalennau 17 - 24)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-22 - Papur 6 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2022

LJC(6)-03-22 - Papur 7 – Llythyr gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 17 Rhagfyr 2021

## 5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

13.50 - 13.55

### 5.1 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Gorchymyn Deddf Nawdd Cymdeithasol (Yr Alban) 2018

**(Cymorth Anabledd a Rhannu Gwybodaeth) (Darpariaeth Ganlyniadol ac Addasiadau) 2022**

(Tudalennau 25 - 26)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-22 - Papur 22 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2022

## 6 Papurau i'w nodi

13.55 - 14.00

**6.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Hygyrchedd cyfraith Cymru**

(Tudalennau 27 - 30)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-22 - Papur 8 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 17 Ionawr 2022

LJC(6)-02-22 - Papur 9 - Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 3 Rhagfyr 2021

**6.2 Gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16**

(Tudalennau 31 - 33)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-22 - Papur 10 - Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 18 Ionawr 2022

**6.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4) ar gyfer Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd**

(Tudalennau 34 - 35)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-22 - Papur 11 - Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 18 Ionawr 2022

6.4 **Gohebiaeth gan y Prif Weinidog: Cytundeb Masnach a Chydweithredu**

(Tudalennau 36 - 39)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-22 - Papur 12 - Llythyr gan y Prif Weinidog, 18 Ionawr 2022

LJC(6)-03-22 - Papur 13 - Llythyr at y Prif Weinidog, 5 Tachwedd 2021

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

14.00

## 8 Cyllideb Llywodraeth Cymru 2022-23

14.00 - 14.10 (Tudalennau 40 - 45)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-22 - Papur 14 - Llythyr drafft

LJC(6)-03-22 - Papur 15 - Llythyr gan y Prif Weinidog, 10 Ionawr 2022

LJC(6)-03-22 - Papur 16 - Llythyr at y Prif Weinidog, 10 Rhagfyr 2021

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) y Bil Cymwysterau Proffesiynol

14.10 - 14.20 (Tudalennau 46 - 49)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) - y Bil Cymwysterau Proffesiynol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-22 - Papur 17 - Adroddiad drafft

LJC(6)-03-22 - Papur 18 - Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 22 Tachwedd 2021

LJC(6)-03-22 - Papur 19 - Llythyr at Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 15 Hydref 2021

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau

14.20 - 14.30 (Tudalennau 50 - 56)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-22 – Papur 20 – Nodyn cyngor cyfreithiol

## 11 Adolygiad o amserlen a chylchoedd gorchwyl y pwyllgorau

14.30 - 14.40 (Tudalennau 57 - 65)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-22 – Papur 21 – Llythyr gan y Llywydd, 7 Ionawr 2022

## 12 Blaenraglen Waith

14.40 - 14.50

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 24 Ionawr 2022

## SL(6)127 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru) 2022

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn sefydlu fframwaith newydd ar gyfer cwricwlwm ac yn gwneud darpariaeth ynghylch asesu ar gyfer disgyblion a phlant yng Nghymru. Mae adran 56 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau ynghylch trefniadau asesu.

Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i—

(a) ysgolion a gynhelir,

(b) ysgolion meithrin a gynhelir,

(c) darparwyr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir,

(d) unedau cyfeirio disgyblion, ac

(e) person sy'n trefnu neu sy'n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn, ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion, (yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996)

Mae rheoliad 1 yn darparu ar gyfer cychwyn y Rheoliadau hyn fesul grwpiau blwyddyn. Bydd hyn yn adlewyrchu'r bwriad i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ("y Cwricwlwm") a fydd hefyd yn cael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod o amser fesul grwpiau blwyddyn.

Bydd y Cwricwlwm a'r Rheoliadau hyn yn dod yn orfodol ar gyfer y grwpiau blwyddyn mewn ysgolion a lleoliadau eraill fel a ganlyn—

(a) ar 1 Medi 2022 ar gyfer—

(i) plant sy'n cael addysg feithrin,

(ii) disgyblion yn eu blwyddyn dderbyn,

(iii) disgyblion ym mlynyddoedd 1 i 6,

(b) ar 1 Medi 2022 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 7 mewn ysgolion a lleoliadau eraill lle mae cwricwlwm wedi'i fabwysiadu neu ei ddarparu fel arall yn unol â'r Ddeddf,

(c) ar 1 Medi 2023 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 7 nad ydynt o fewn paragraff (b),

(d) ar 1 Medi 2023 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 8,

(e) ar 1 Medi 2024 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 9,

(f) ar 1 Medi 2025 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 10,

(g) ar 1 Medi 2026 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 11,

**Asesiadau parhaus**

Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau penodedig (er enghraifft, penaethiaid) wneud trefniadau ar gyfer asesu pob disgybl yn barhaus drwy gydol y flwyddyn ysgol gan ymarferydd (h.y. gan berson sy'n darparu addysgu a dysgu mewn perthynas â'r cwricwlwm perthnasol). Diben y trefniadau asesu yw asesu, mewn perthynas â'r cwricwlwm perthnasol—

(a) y cynnydd a wneir gan ddisgyblion a phlant;

(b) y camau nesaf yn eu cynnydd; ac

(c) yr addysgu a'r dysgu sydd ei angen i wneud y cynnydd hwnnw.

Rhaid i'r trefniadau asesu fod yn addas i ddisgyblion a phlant o oedrannau, galluoedd a doniau gwahanol.

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r trefniadau asesu gael eu hadolygu, a'u diwygio o dan amgylchiadau penodedig.

**Asesiadau ar-fynediad**

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau penodedig (er enghraifft, penaethiaid) wneud trefniadau ar gyfer asesu disgyblion a phlant. Diben y trefniadau asesu yw asesu, mewn perthynas â'r cwricwlwm perthnasol, galluoedd a doniau disgyblion a phlant er mwyn penderfynu ar—

(a) y camau nesaf yn eu cynnydd, a

(b) yr addysgu a dysgu sydd ei angen i wneud y cynnydd hwnnw.

Rhaid i'r trefniadau asesu—

(a) fod yn addas i ddisgyblion a phlant o oedrannau, galluoedd a doniau gwahanol; a

(b) cynnwys trefniadau ar gyfer asesu—

(i) sgiliau rhifedd a llythrennedd disgyblion a phlant, a

(ii) datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion a phlant.

At hynny, rhaid i'r trefniadau asesu ddigwydd o fewn amser penodedig. Er enghraifft, o ran addysg feithrin, rhaid iddynt ddigwydd o fewn 6 wythnos i'r tro cyntaf y caiff y plentyn neu'r disgybl addysg feithrin. Ac ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 1 mewn ysgol a gynhelir, rhaid iddynt ddigwydd o fewn 6 wythnos ar ôl i'r disgybl ddechrau blwyddyn 1.

Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r trefniadau asesu gael eu hadolygu, a'u diwygio o dan amgylchiadau penodedig.

**Dyletswydd Gweinidogion Cymru i gyhoeddi trefniadau asesu**

Mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi trefniadau asesu y gellir eu mabwysiadu gan ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir. Ac mae Rheoliad 10 yn darparu ar gyfer adolygu a diwygio'r trefniadau asesu cyhoeddedig.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021
**Fe'u gwnaed ar:** 07 Ionawr 2022
**Fe'u gosodwyd ar:** 11 Ionawr 2022
**Yn dod i rym ar:** yn unol â rheoliad 1(2) i (6)

Eitem 3.1

# SL(6)135 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2022

## Cefndir a diben

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984") yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2022 ("y Rheoliadau") wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 45C(1) a (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf 1984 mewn ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad haint COVID-19.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau"), gan gael effaith o 15 Ionawr 2022, er mwyn:

- darparu, o dan y cyfyngiadau Lefel Rhybudd 2 yn Atodlen 2 i'r prif Reoliadau, y caiff hyd at 500 o bobl fod yn bresennol mewn digwyddiad yn yr awyr agored (gan godi'r terfyn o 50). Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys personau sy'n gweithio neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol yn y digwyddiad. Yn ogystal, pan fo'r digwyddiad yn ddigwyddiad camp tîm, mae'r prif Reoliadau yn trin aelodau o'r timau a'r rheini sy'n darparu hyfforddiant neu sy'n cynorthwyo'r timau fel arall fel pe baent yn gweithio yn y digwyddiad;
- gwneud mân ddiwygiad i reoliad 16 o'r prif Reoliadau, gan ychwanegu cyfeiriad at "Gam 4", sy'n ganlyniadol ar y newidiadau a wnaed i'r prif Reoliadau gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 25) 2021 .

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pedwar pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparodd Mark Drakeford AS, Prif Weinidog, mewn llythyr at y Llywydd, ar 14 Ionawr 2022.

Nodir y canlynol yn y llythyr at y Llywydd:

> *"Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar ddechrau'r dydd ar 15 Ionawr 2022, lai na 21 o ddiwrnodau ar ôl iddo gael ei osod. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn ymateb i'r dystiolaeth newidiol ar y coronafeirws, yn arbennig yr amrywiolyn Omicron."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd o'r farn eu bod yn gymesur.*
>
> *Mae'r prif Reoliadau yn cyffwrdd ag Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (yr hawl i ryddid mynegiant, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (yr hawl i ymgynnull ac ymgysylltu'n rhydd ag eraill) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).*
>
> *Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Rhaid hefyd cydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y*

*coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddiadau'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, ymgysylltwyd ag amrywiol randdeiliaid gan gynnwys Is-adran Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru."*

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau a gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau, i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwynt rhinweddau 4 yn unig.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**18 Ionawr 2022**

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1SN

14 Ionawr 2022

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2022**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau hyn o dan adrannau 45C(1) a (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Maent yn dod i rym ar 15 Ionawr 2022. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac rwy'n bwriadu ei osod, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, unwaith y bydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar ddechrau'r dydd ar 15 Ionawr 2022, lai na 21 o ddiwrnodau ar ôl iddo gael ei osod. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn ymateb i'r dystiolaeth newidiol ar y coronafeirws, yn arbennig yr amrywiolyn Omicron.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
SeneddHealth@senedd.wales

cc Huw Irranca-Davies, Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

17 Ionawr 2022

Annwyl Russell,

Diolch am eich llythyr ar 26 Tachwedd am y Fframwaith Cyffredin dros dro ar gyfer Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd. Rwyf am ateb eich cwestiynau yn y drefn y gwnaethoch eu gofyn.

***Cyffredinol***

1. **Pam mae angen fframwaith cyffredin ar gyfer y maes polisi hwn?**

Yn ystod ymarfer gan Lywodraeth y DU ar fframweithiau cyffredin, a gynhaliwyd yn 2017, nodwyd bod diogelu iechyd y cyhoedd yn faes lle'r oedd cryn dipyn o gydlynu eisoes rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a bod y cydlynu hwnnw, yn rhannol, yn seiliedig ar berthynas y DU â'r UE a'i hasiantaethau, gan gynnwys y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Atal a Rheoli Clefydau (ECDC).

Pan oedd y DU yn un o Aelod-wladwriaethau'r UE, roedd pedair gwlad y DU yn cydlynu ac yn rhannu gwybodaeth am ddiogelu iechyd y cyhoedd gydag Iechyd Cyhoeddus Lloegr, awdurdod cymwys cenedlaethol y DU ar y pryd, a'r canolbwynt ar gyfer cyfathrebu â'r Undeb Ewropeaidd. Roedd yr wybodaeth honno'n cynnwys gwybodaeth am fygythiadau iechyd trawsffiniol difrifol, bygythiadau newydd,  bygythiadau a oedd yn dechrau dod i'r amlwg, a gwybodaeth am wyliadwriaeth, ac arferid mynd ati hefyd i gydlynu ymatebion. Roedd system yr UE hefyd yn helpu'r DU i gydymffurfio â'r Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol (2005) (IHR) [1].

[1] Y Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol (2005) (IHR) yw'r prif fframwaith cyfreithiol sy'n diffinio hawliau a rhwymedigaethau gwledydd wrth ymdrin â digwyddiadau ac argyfyngau iechyd cyhoeddus sydd â'r potensial i groesi ffiniau.  Mae'r IHR yn erfyn cyfraith ryngwladol sy'n rhwymo 196 o wledydd gan gynnwys y 194 o wledydd sy'n aelodau o'r WHO.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth y DU, y Llywodraethau Datganoledig ac asiantaethau iechyd cyhoeddus y DU oll yn cytuno bod angen fframwaith er mwyn sicrhau bod modd parhau i gydweithredu ar fygythiadau iechyd trawsffiniol difrifol, gan gydnabod pwysigrwydd cydweithredu o'r fath o ran rhoi lefel uchel o ddiogelwch iechyd i bobl ledled y DU. Aseswyd hefyd fod angen fframwaith er mwyn sicrhau bod y DU yn y sefyllfa orau i fedru cyflawni'r rhwymedigaethau rhyngwladol sydd arni o dan y Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol.

2. **Sut y bydd y fframwaith cyffredin hwn yn cysylltu â fframweithiau mewn meysydd polisi cysylltiedig, megis diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid ac iechyd a lles anifeiliaid?**

Bydd cysylltiadau rhwng y Fframwaith Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd a meysydd polisi cysylltiedig eraill drwy raglen waith sylfaenol a ddatblygwyd gan Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd y Pedair Gwlad ac y cytunwyd arni gan Bwyllgor Diogelu Iechyd y DU (mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu cynrychioli ar y ddau ohonynt).

3. **Mae'r fframwaith dros dro yn nodi y bydd y partïon yn datblygu rhaglen waith ar y cyd. A fydd y rhaglen waith hon yn cael ei chyhoeddi?**

Mae'r rhaglen waith ar y cyd yn cael ei datblygu gan Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd y Pedair Gwlad, a chafodd Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU raglen waith ddrafft gychwynnol yn ei gyfarfod cyntaf ym mis Hydref 2021. Mae'r rhaglen waith wrthi'n cael ei rhoi ar ei gwedd derfynol ar hyn o bryd ar ôl i'r Pwyllgor gyflwyno sylwadau arni ac mae trafodaethau ar gydweithredu ar faterion cyffredinol sy'n gysylltiedig â chyfathrebu a chyhoeddi yn parhau i fynd rhagddynt. Yn ogystal, bydd sut y caiff y Fframwaith, gan gynnwys y rhaglen waith, eu gweithredu yn cael ei ystyried yn unol â'r mecanwaith adolygu a diwygio a amlinellir. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi hefyd i sut i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bob un o'r 4 deddfwrfa yn y DU ar sut y bydd y fframwaith hwn yn cael ei weithredu ar ôl i'r broses adolygu hon ddod i ben.

4. **Mae'r fframwaith yn nodi mai rhan o'i ddiben yw rheoli gwahaniaeth posibl rhwng gwahanol rannau o'r DU. Bydd partïon yn ceisio cytuno ar ddulliau cyffredin 'lle y gellir cytuno'. Sut y bydd y partïon yn penderfynu pryd y byddai gwahaniaeth yn dderbyniol?**

Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i bob Llywodraeth ystyried sut y gallai unrhyw newidiadau yn ei gwlad hi effeithio ar y tair gwlad arall, a lle medrir, i gytuno ar ddull gweithredu cyffredin. Mae'r fframwaith yn derbyn na fyddai dull cyffredin bob tro'n addas ac felly nid yw'n newid gallu Llywodraeth i ystyried ac ymateb i ffactorau a blaenoriaethau unigol. Mae hwn yn gam angenrheidiol sydd i'w groesawu i sicrhau bod y pedair gwlad yn siarad yn agored â'i gilydd.

5. **Sut y byddai'r fframwaith hwn yn effeithio ar yr ymdriniaeth ag unrhyw bandemig yn y dyfodol?**

Mae'r Fframwaith yn sefydlu disgwyliadau cyffredin o ran meysydd cydweithredu allweddol ac yn diffinio ffyrdd o weithio er mwyn sicrhau eu bod yn gogwyddo tuag at gryfhau'r gallu sydd gennym ar y cyd i fynd i'r afael â bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd.

Yn benodol, mae'r Fframwaith yn ceisio:

a) gwella effeithiolrwydd y trefniadau sydd gan y DU ar gyfer polisïau diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd, a gwella'r ffordd y cydlynir y polisïau hynny, gan gynnwys parodrwydd ar gyfer argyfyngau a chynllunio ymatebion;

b) lleihau nifer yr achosion o fygythiadau iechyd trawsffiniol difrifol yn y DU a lleihau effaith y bygythiadau hynny; a

c) cyn belled ag y bo modd, rhagweld, nodi, paratoi ar gyfer bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd y cyhoedd yn y DU ac ymateb iddynt.

***Y DU a'r UE***

6. **Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi mynegi pryderon o’r blaen ynghylch y peryglon o adael sefydliadau'r UE ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd. Sut mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn lliniaru'r risgiau hyn?**

Bwriedir i'r Fframwaith gyd-fynd â Rheoliadau Diogelwch Iechyd (Ymadael â'r UE) 2021, a'u hategu. Bwriad y Rheoliadau hynny, yn eu tro, yw helpu i weithredu’r trefniadau rhwng y DU a'r UE ar gyfer cydweithredu ar ddiogelwch iechyd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae Teitl 1 o Ran 4 (Cydweithredu Thematig) yn y Cytundeb hwnnw’n cefnogi trefniadau effeithiol a rhannu gwybodaeth rhwng y DU a'r UE os bydd bygythiad trawsffiniol difrifol i iechyd yn lledaenu, neu os bydd risg iddo ledaenu, ar draws ffiniau o leiaf un o Aelod-wladwriaethau'r UE a'r DU.

I grynhoi, mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gwneud darpariaeth i’r DU, sefydliadau'r UE ac Aelod-wladwriaethau'r UE :

- gyfnewid gwybodaeth;
- asesu risgiau iechyd y cyhoedd; a
- chydlynu mesurau y gallai fod eu hangen er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Er mai Asiantaeth Diogelwch y DU (UKSHA) yw Canolbwynt dynodedig y DU o dan delerau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu cynrychioli ar Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd y Pedair Gwlad ac ar Bwyllgor Diogelu Iechyd y DU. Gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU y mae cadeiryddiaeth Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU yn y flwyddyn gyntaf. Bydd cadeiryddiaeth y Pwyllgor a Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd y 4 Gwlad yn cylchdroi bob blwyddyn, gan sicrhau bod y pedair llywodraeth yn cael gwybod am y gwaith a fydd yn mynd rhagddo ac yn cymryd rhan lawn ynddo.

7. **O dan Reoliadau Diogelwch Iechyd (Ymadael â'r UE) 2021, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru wedi ysgwyddo rhai cyfrifoldebau a wnaed yn flaenorol ar lefel yr UE, fel cynrychioli Cymru ar Bwyllgor Diogelu Iechyd newydd y DU. A allech chi gadarnhau pa gyfrifoldebau newydd y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru yn eu hysgwyddo a pha adnoddau sydd wedi'u dyrannu ar gyfer hyn? Sut mae'r trefniadau newydd yn wahanol i'ch trefniadau blaenorol pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth o'r UE?**

Mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ill dau yn cael eu cynrychioli ar Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd y Pedair Gwlad a Phwyllgor Diogelu Iechyd y DU. Nodwyd bod cymorth ar gael ar gyfer y swyddogaethau hyn o gyllidebau sy’n bodoli eisoes. Yn y gorffennol, Iechyd Cyhoeddus Cymru oedd yn darparu cadeirydd/arweinydd Gweithgor Trefniadau Pontio'r UE y Pedair Gwlad ar Ddiogelu Iechyd (a oedd yn canolbwyntio ar drefniadau pontio'r UE) ac mae wedi cadw rôl y cadeirydd ar gyfer blwyddyn gyntaf Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd y Pedair Gwlad. Gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU y mae cadeiryddiaeth Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU yn y flwyddyn gyntaf. Bydd swyddi cadeirydd y Pwyllgor a chadeirydd Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd y 4 Gwlad yn cylchdroi bob blwyddyn.

Bydd angen adnoddau ar gyfer rhaglen waith sylfaenol y DU er mwyn sicrhau y bydd Cymru yn gallu gwneud cyfraniad llawn a pharhaus, ac mae asesiad o'r adnoddau sydd eu hangen wrthi'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.

8. **Bydd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) yn cyflawni rhai swyddogaethau cydlynu a wnaed yn flaenorol ar lefel yr UE. A yw Llywodraeth Cymru yn fodlon bod gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU ddigon o adnoddau i gyflawni'r swyddogaethau hyn?**

Mae UKHSA wedi etifeddu cyfrifoldebau ac adnoddau a arferai gael eu dynodi i Iechyd Cyhoeddus Lloegr, y canolbwynt cenedlaethol blaenorol ar gyfer y DU. Roedd y cyfrifoldebau a'r adnoddau hynny'n cwmpasu cyfrifoldebau parhaus o dan Reoliadau Iechyd Rhyngwladol. Nid oes gennym unrhyw reswm dros gredu nad oes gan UKHSA ddigon o adnoddau i gyflawni'r swyddogaethau angenrheidiol ar ran y DU.

***Rhyngwladol***

9. **A yw Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y fframwaith yn ystyried ei hymrwymiadau rhyngwladol presennol?**

Mae'r Fframwaith yn ystyried y rhwymedigaethau o dan IHR a'r TCA ac nid yw'n effeithio ar ymrwymiadau rhyngwladol eraill Llywodraeth Cymru.

10. **Darparwch asesiad Llywodraeth Cymru o sut mae'r fframwaith yn darparu ar gyfer gwahaniaeth ac alinio rhwng ymrwymiadau a gweithgaredd iechyd rhyngwladol y pedair gwlad, er enghraifft Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Llywodraeth Cymru gyda Sefydliad Iechyd y Byd ar degwch iechyd neu ei chymorth diogelu iechyd y cyhoedd i genhedloedd Affrica yn ystod y pandemig.**

Mae'r fframwaith yn fecanwaith i wledydd y DU allu cydweithredu ar faterion sy'n ymwneud â diogelu iechyd a diogelwch iechyd, a llunio safbwyntiau a dulliau cyffredin lle y bernir ar y cyd bod hynny'n briodol. Bydd y pedair gwlad yn cadw golwg ar y risgiau a bydd hynny'n dylanwadu ar y rhaglen waith.

Gall aelodau'r fframwaith gryfhau'r cydweithio mewn meysydd eraill hefyd, gan gynnwys:

a) Datblygu ffyrdd ar lefel y DU o ymdrin â materion diogelu iechyd y cyhoedd sy'n gofyn am ymgysylltu â phartneriaid rhyngwladol, gan gynnwys Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Atal a Rheoli Clefydau (ECDC) ac Aelod-wladwriaethau'r UE.

b) Nodi cyfleoedd pellach i ymgysylltu â phartneriaid rhyngwladol, gan gydnabod a lle y bo'n briodol, gan adeiladu ar unrhyw ymrwymiadau presennol a allai fod gan y Partïon.

Fodd bynnag, nid yw'r cydweithio hwn yn golygu na chaiff gwledydd unigol drefnu eu hymrwymiadau a'u cytundebau iechyd rhyngwladol dwyochrol eu hunain.

11. **Cadarnhewch sut yr ystyriwyd ac yr ymgorfforwyd rhwymedigaethau rhyngwladol presennol yn y fframwaith ac eglurwch sut y bydd rhwymedigaethau'r dyfodol yn cael eu hymgorffori.**

Mae'r Fframwaith yn ystyried y rhwymedigaethau o dan IHR a'r TCA. Nid yw'r Fframwaith yn effeithio ar ymrwymiadau rhyngwladol eraill Llywodraeth Cymru.

12. **Rhowch ragor o wybodaeth am rôl Llywodraeth Cymru neu gyrff Cymreig o ran cyflawni agweddau rhyngwladol y fframwaith. Er enghraifft, a yw'r fframwaith yn rhoi cyfleoedd ar gyfer rôl ddatganoledig yn natblygiad polisi tramor y DU, fel y darperir mewn fframweithiau eraill.**

Y DU yw llofnodwr yr IHR a'r TCA. Gan fod cysylltiadau rhyngwladol yn hyn o beth yn fater sydd wedi'i neilltuo i Lywodraeth y DU, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am lunio polisi'r DU. Fodd bynnag, gan fod diogelu iechyd yn gyfrifoldeb datganoledig, rhaid wrth gydgysylltu rhwng y pedair gwlad o ran rhoi'r rhwymedigaethau rhyngwladol yn y maes hwn ar waith ledled y DU ac adlewyrchir hynny yn Rheoliadau Diogelwch Iechyd (Ymadael â'r UE) 2021, y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac wrth ddatblygu meysydd perthnasol y rhaglen waith.

13. **Cadarnhewch a yw'r fframwaith yn rhoi cyfleoedd ar gyfer cynrychiolaeth o Gymru mewn fforymau rhyngwladol, naill ai gan Lywodraeth Cymru neu gyrff Cymreig.**

Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am drafod â gwledydd eraill sut i gydweithredu ar ddigwyddiadau iechyd cyhoeddus difrifol (gan fodloni gofynion y TCA a'r IHR). Bydd Gweinidogion Iechyd y Llywodraethau Datganoledig a'u hasiantaethau iechyd cyhoeddus priodol yn gyfrifol am gydlynu a rhannu gwybodaeth â'i gilydd at y dibenion hyn.

***Anghydfodau***

14. **A yw Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y dull o ddatrys anghydfodau ar gyfer y fframwaith yn addas i'r diben?**

Ydw, rwy'n credu fod y mecanweithiau'n gadarn ac yn gymesur. Cawsant eu datblygu gan bedair gwlad y DU a chafwyd eu cytundeb arnynt.

15. **Pwy fydd y canolwr terfynol os bydd anghydfod, ac a fydd hawl i apelio os bydd un o'r partïon yn anfodlon â'r modd y cafodd yr anghydfod ei ddatrys?**

Y nod yw y datrys unrhyw faterion trwy drafodaeth a thrwy ddilyn proses o gamau. Nodir hynny yn nogfennau'r fframwaith. Yn ôl ein profiad ni o ddelio â llywodraethau eraill y DU ynghylch materion deddfwriaethol yn y meysydd polisi hyn, ceir lefel uchel o barodrwydd ar y cyfan i chwilio am atebion sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr.  Dylid nodi hefyd  y bydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, a sefydlwyd o dan yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, yn monitro'r rhaglen fframweithiau gan gynnwys unrhyw rwystrau i'w cynnydd.

16. **A fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Senedd am anghydfodau a godir drwy'r fframwaith?**

Ydw, rwy'n fodlon ymrwymo i ysgrifennu at y pwyllgor(au) priodol os codir unrhyw anghydfodau ffurfiol o dan y fframwaith gan Gymru neu mewn perthynas â Chymru.

***Tryloywder ac atebolrwydd***

17. **A wnaeth Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ymgysylltu ag unrhyw randdeiliaid yng Nghymru wrth ddatblygu'r fframwaith dros dro? Sut mae'r fframwaith dros dro yn adlewyrchu ymateb rhanddeiliaid?**

Ymgynghorwyd a thrafodwyd yn eang â’r Llywodraethau Datganoledig ac asiantaethau iechyd cyhoeddus y DU wrth ddatblygu’r Fframwaith (a Rheoliadau Diogelwch Iechyd (Ymadael â'r UE) 2021). Defnyddiwyd Grŵp Pontio'r UE ar  Ddiogelu Iechyd y Pedair Gwlad, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth y DU, y Llywodraethau Datganoledig ac asiantaethau iechyd cyhoeddus y DU, fel y prif fforwm i drafod polisi. Cynhaliwyd tri gweithdy undydd, yn Llundain, Caerdydd a Belfast, yn ogystal â chyfarfodydd bob pythefnos i ddatblygu’r Fframwaith gydol 2020 a 2021.

Trafodwyd datblygiad y Fframwaith yng Ngrŵp Cynghori'r Prif Swyddog Meddygol ar Ddiogelu Iechyd. Mae'r grŵp aml-asiantaeth hwn yn cynnwys cynrychiolwyr rhanddeiliaid allweddol yn y sector cyhoeddus megis Byrddau Iechyd a Llywodraeth Leol.

Roedd sylwadau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y cyfan yn gefnogol i gynnwys y Fframwaith drafft a chafodd y newidiadau a’r ychwanegiadau y gwnaethom eu hawgrymu naill ai eu derbyn neu cawsom esboniad llawn pam y cawsant eu gwrthod.

**18. Sut y bydd y Senedd a rhanddeiliaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad parhaus y fframwaith?**

Bydd swyddogion yn monitro gweithrediad y fframweithiau penodol sy'n berthnasol i'w meysydd polisi ac yn gofyn am fewnbwn gan randdeiliaid yn ôl y gofyn. A siarad yn fwy cyffredinol, bydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn monitro cynnydd y rhaglen fframweithiau fel rhan o’r rôl a roddwyd iddo o dan yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.  Disgrifir y rôl honno yn adroddiad cynnydd Llywodraeth y DU ym mis Mawrth 2021, sef *'Goruchwylio’r rhaglen fframweithiau cyffredin a'i threfniadau llywodraethu’*. Y disgwyl yw y bydd adroddiadau ar fframweithiau yn ddogfennau cyhoeddus pan fydd y Gweinidogion portffolio wedi'u cymeradwyo a byddant ar gael i'r pwyllgorau perthnasol yn y pedair gwlad yn ogystal â rhanddeiliaid perthnasol eu gweld.

**19. Sut y bydd y Senedd a rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at y broses o adolygu a diwygio’r fframwaith?**

Yn ôl yr amserlen, mae gofyn adolygu’r fframwaith chwe mis, blwyddyn, a thair blynedd ar ôl ei ddechrau. Wedi hynny, cynhelir adolygiad cyfnodol bob tair blynedd. Caiff unrhyw aelod o’r Fframwaith ddefnyddio trydydd parti i roi cyngor unrhyw adeg yn y broses ac felly byddwn yn gofyn am farn rhanddeiliaid perthnasol yn ystod y broses adolygu neu ddiwygio yn ôl y gofyn.

Os caiff y Fframweithiau eu newid, rhoddir gwybod i bwyllgorau Senedd Cymru er mwyn iddynt allu craffu ar y newidiadau ar lefel sy’n briodol ac yn ofynnol.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**—**
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

Dr Tracey Cooper
Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru

26 Tachwedd 2021

Annwyl Eluned a Tracey

Fframwaith cyffredin dros dro: Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd

Yn ein cyfarfod ar 18 Tachwedd 2021, trafodwyd ein dull o graffu ar y Fframwaith Cyffredin dros dro ar gyfer Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd.

Er mwyn llywio ein hystyriaeth o'r Fframwaith, byddem yn croesawu barn Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y materion a nodir yn yr atodiad i'r llythyr hwn erbyn dydd Iau 13 Ionawr 2022.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

cc Huw Irranca-Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg neu Saesneg We welcome correspondence in Welsh or English


Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Atodiad: Fframwaith cyffredin dros dro: Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd

I’n cynorthwyo gyda’n trafodaethau ar y fframwaith cyffredin dros dro, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am y materion a restrir isod. Byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Iau 13 Ionawr.

### Cyffredinol

1. Pam mae angen fframwaith cyffredin ar gyfer y maes polisi hwn?

2. Sut y bydd y fframwaith cyffredin hwn yn cysylltu â fframweithiau mewn meysydd polisi cysylltiedig, fel diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid ac iechyd a lles anifeiliaid?

3. Mae'r fframwaith dros dro yn nodi y bydd y partïon yn datblygu rhaglen waith ar y cyd. A fydd y rhaglen waith hon yn cael ei chyhoeddi?

4. Mae'r fframwaith yn nodi mai rhan o'i ddiben yw rheoli gwahaniaeth posibl rhwng gwahanol rannau o'r DU. Bydd partïon yn ceisio cytuno ar ddulliau cyffredin 'lle y gellir cytuno'. Sut y bydd y partïon yn penderfynu pryd y byddai gwahaniaeth yn dderbyniol?

5. Sut y byddai'r fframwaith hwn yn effeithio ar yr ymdriniaeth ag unrhyw bandemig yn y dyfodol?

### Y DU a'r UE

6. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi mynegi pryderon o'r blaen ynghylch y peryglon o adael sefydliadau'r UE ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd. Sut mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn lliniaru'r risgiau hyn?

7. O dan Reoliadau Diogelwch Iechyd (Ymadael â’r UE) 2021, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru wedi ysgwyddo rhai cyfrifoldebau a wnaed yn flaenorol ar lefel yr UE, fel cynrychioli Cymru ar Bwyllgor Diogelu Iechyd newydd y DU. A allech chi gadarnhau pa gyfrifoldebau newydd y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru yn eu hysgwyddo a pha adnoddau sydd wedi'u dyrannu ar gyfer hyn? Sut mae'r trefniadau newydd yn wahanol i'ch trefniadau blaenorol pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth o'r UE?

8. Bydd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU yn cyflawni rhai swyddogaethau cydlynu a wnaed yn flaenorol ar lefel yr UE. A yw Llywodraeth Cymru yn fodlon bod gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU ddigon o adnoddau i gyflawni'r swyddogaethau hyn?

### Rhyngwladol

9. A yw Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y fframwaith yn ystyried ei ymrwymiadau rhyngwladol presennol?

10. Darparwch asesiad Llywodraeth Cymru o sut mae'r fframwaith yn darparu ar gyfer gwahaniaeth ac alinio rhwng ymrwymiadau a gweithgaredd iechyd rhyngwladol y pedair gwlad, er enghraifft Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Llywodraeth Cymru gyda Sefydliad Iechyd y Byd ar degwch iechyd neu ei chymorth diogelu iechyd y cyhoedd i genhedloedd Affrica yn ystod y pandemig.

11. Cadarnhewch sut yr ystyriwyd ac yr ymgorfforwyd rhwymedigaethau rhyngwladol presennol yn y fframwaith ac eglurwch sut y bydd rhwymedigaethau'r dyfodol yn cael eu hymgorffori.

12. Rhowch ragor o wybodaeth am rôl Llywodraeth Cymru neu gyrff Cymreig o ran cyflawni agweddau rhyngwladol y fframwaith. Er enghraifft, a yw'r fframwaith yn rhoi cyfleoedd ar gyfer rôl ddatganoledig yn natblygiad polisi tramor y DU, fel y darperir mewn fframweithiau eraill.

13. Cadarnhewch a yw'r fframwaith yn rhoi cyfleoedd ar gyfer cynrychiolaeth o Gymru mewn fforymau rhyngwladol, naill ai gan Lywodraeth Cymru neu gyrff Cymreig.

## Anghydfodau

14. A yw Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y dull o ddatrys anghydfodau ar gyfer y fframwaith yn addas i'r diben?

15. Pwy fydd y canolwr terfynol os bydd anghydfod, ac a fydd hawl i apelio os bydd un o'r partïon yn anfodlon â'r modd y cafodd yr anghydfod ei ddatrys?

16. A fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Senedd am anghydfodau a godir drwy'r fframwaith?

## Tryloywder ac atebolrwydd

17. A wnaeth Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ymgysylltu ag unrhyw randdeiliaid yng Nghymru wrth ddatblygu'r fframwaith dros dro? Sut mae'r fframwaith dros dro yn adlewyrchu ymateb rhanddeiliaid?

18. Sut y bydd y Senedd a rhanddeiliaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad parhaus y fframwaith?

19. Sut y bydd y Senedd a rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at y broses o adolygu a diwygio'r fframwaith?

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: MA/EM/3486/21

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
SeneddIechyd@senedd.cymru

cc Huw Irranca-Davies, Cadeirydd,
y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

17 Ionawr 2022

Annwyl Russell,

Diolch ichi am eich llythyr 17 Rhagfyr ynghylch y Fframweithiau Cyffredin dros dro ar gyfer Diogelwch ac Ansawdd Gwaed, ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau). Atebaf eich cwestiynau yn y drefn y cawsant eu gofyn.

**Cyffredinol**

***Cwestiwn 1: Pam mae angen fframweithiau cyffredin ar gyfer y meysydd polisi hyn?***
Mae angen y fframweithiau hyn er mwyn sicrhau cysondeb o ran unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol er mwyn cadw trefn gadarn ledled y DU ar safonau diogelwch. Mae gan Weinidogion ym mhob rhan o'r DU bwerau i ddeddfu mewn perthynas ag ansawdd a safonau gwaed, organau, meinweoedd a chelloedd. Er hynny, mae pedair gwlad y DU yn cytuno bod angen cynnal y cynlluniau cynnig a dyrannu ledled y DU ar gyfer organau a'r trefniadau cymorth cydfuddiannol sydd ar waith ar draws y gwasanaethau gwaed. Mae'r trefniadau hyn yn caniatáu i waed, organau a meinweoedd a roddir mewn un rhan o'r DU gael eu defnyddio mewn rhannau eraill o'r DU ac, yn achos gwaed, i'r gwahanol wasanaethau gwaed gefnogi ei gilydd ar adeg o brinder.

***Cwestiwn 2: Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â swyddogaethau newydd yn y meysydd polisi hyn yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Sut mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod ganddi'r adnoddau a'r arbenigedd i arfer y swyddogaethau hyn yn effeithiol?***
Mae meysydd diogelwch ac ansawdd gwaed, organau, meinweoedd a chelloedd yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig y Senedd. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi gwneud, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru (yn 2019 a diwygio yn 2020), y tri Offeryn Statudol canlynol sy'n cynnal y safonau ansawdd a diogelwch presennol ar gyfer gwaed, cydrannau gwaed, organau, meinweoedd a chelloedd, ac yn gwneud diwygiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth i adlewyrchu bod yr UE wedi dod yn 'drydedd wlad':

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Rheoliadau Diogelwch ac Ansawdd Gwaed (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019;
- Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019; a
- Rheoliadau Meinweoedd Dynol (Ansawdd a Diogelwch at Ddefnydd mewn Bodau Dynol) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019.

Mae'r cyfrifoldeb dros y meysydd hyn yn perthyn i ddau dîm polisi yng Ngrŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae gan y ddau dîm arbenigedd yn y meysydd o dan sylw a byddai'r swyddogion hyn yn ymateb i unrhyw gynigion i arfer y swyddogaethau hyn yng Nghymru neu rywle arall yn y DU.

***Cwestiwn 3: Pa rôl sydd gan Lywodraeth Cymru o ran goruchwylio gwaith y Pwyllgor Cynghori Annibynnol ar Ddiogelwch Gwaed, Meinweoedd ac Organau a Chyd-bwyllgor Cynghori Proffesiynol ar Wasanaethau Trallwyso Gwaed a Thrawsblannu Meinwe y DU?***
Mae Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU yn arwain Pwyllgor Cynghori ar Ddiogelwch Meinweoedd Gwaed ac Organau (SaBTO), sy'n rhoi cyngor polisi i'r Gweinidogion ym mhob un o bedair gwlad y DU ar y ffyrdd mwyaf priodol o sicrhau diogelwch gwaed, celloedd, meinweoedd ac organau ar ddibenion trallwyso a thrawsblannu. Mae Cyd-bwyllgor Cynghori Proffesiynol ar Wasanaethau Trallwyso Gwaed a Thrawsblannu Meinweoedd y DU (JPAC) yn darparu canllawiau gwasanaethau manwl ar gyfer gwasanaethau trallwyso gwaed y DU. Gall swyddogion o'r Llywodraethau Datganoledig a/neu wasanaethau gwaed fynychu'r cyfarfodydd hyn fel arsylwyr a byddant yn cymryd i ystyriaeth unrhyw argymhellion y mae'r pwyllgorau'n eu gwneud yng nghyd-destun gwasanaethau yng Nghymru.

**<u>Rheoli ymwahanu</u>**

***Cwestiwn 4: Mae'r fframweithiau yn nodi y byddant yn caniatáu ar gyfer 'ymwahanu angenrheidiol' o fewn y DU. A allech chi nodi beth yw ystyr 'angenrheidiol' yn y cyd-destun hwn?***
Gallai ‘ymwahanu angenrheidiol’ yn y cyd-destun hwn fod yn newid y mae ei angen er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ofynion gweithredol penodol mewn gwlad benodol; er enghraifft, gallai fod angen darparu gwybodaeth neu brofion ychwanegol i roddwyr y tu hwnt i'r hyn a nodir yn y rheoliadau neu'r atodlenni presennol er mwyn ymateb i fater lleol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw feysydd ymwahanu penodol o dan sylw, ond mae'n bwysig cadw'r gallu i ymwahanu oddi wrth rannau eraill o'r DU os bernir ei bod yn briodol yn y dyfodol, hyd yn oed os nad yw amgylchiadau'r ymwahanu hwnnw wedi'u rhag-weld eto.

***Cwestiwn 5: A ydych o'r farn bod y fframweithiau yn rhoi cyfle priodol i Lywodraeth Cymru a'r Senedd lunio cyfraith a pholisi ar gyfer Cymru?***
Ydwyf Rwyf yn fodlon, ar gyfer y ddau fframwaith dan sylw, nad yw'r fframweithiau hyn yn effeithio ar bwerau Gweinidogion Cymru a'r Senedd.

***Cwestiwn 6: A fydd y fframweithiau yn cael unrhyw effaith ar ddeddfwriaeth neu bolisïau presennol Cymru neu ei deddfwriaeth neu’i pholisïau yn y dyfodol?***
Nid fel y rhagwelir ar hyn o bryd ar gyfer y meysydd polisi penodol hyn. Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i wneud unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth neu bolisi Cymru mewn perthynas â'r meysydd a gwmpesir gan y fframweithiau.

***Cwestiwn 7: Sut fyddai'r fframweithiau'n effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i ymateb i sefyllfaoedd brys, fel afiechydon newydd sy'n dod i'r amlwg?***
Fel y nodir uchod ar gyfer Cwestiwn 4, mae'r fframweithiau penodol hyn yn caniatáu i'r ymwahanu angenrheidiol ddigwydd er mwyn galluogi pob gwlad yn y DU i ymateb i ffactorau unigol. Felly nid yw'r fframweithiau ynddynt eu hunain yn effeithio ar y gallu hwn. Er hynny, maent yn ei gwneud yn ofynnol i holl wledydd y DU ystyried sut y gallai unrhyw

newidiadau effeithio ar rannau eraill o'r DU, sy'n gam i'w groesawu ac yn gam angenrheidiol.

***Cwestiwn 8: Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn bwriadu mabwysiadu newidiadau i ddeddfwriaeth ar waed, meinweoedd a chelloedd yn gynnar yn 2022. A yw'r fframwaith yn caniatáu digon o gyfle i Lywodraeth Cymru wneud newidiadau cyfatebol ar gyfer Cymru, ac a ydych yn bwriadu gwneud hyn?***
Rydym yn ymwybodol o'r cynlluniau i ddiwygio Cyfarwyddebau'r UE ar ddiogelwch gwaed, meinweoedd a chelloedd a byddwn yn ystyried, gyda'r llywodraethau eraill yn y DU, oblygiadau unrhyw newidiadau. Ni fyddem yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau unochrog yng Nghymru, gan ffafrio gweithredu ar y cyd â gweddill y DU mewn ymateb i unrhyw newidiadau yn yr UE, ar yr amod bod manylion unrhyw ddull gweithredu ar y cyd o'r fath yn briodol i Gymru.

***Cwestiwn 9: Fel rhan o'i hadolygiad o gyfraith yr UE a ddargedwir, mae Llywodraeth y DU yn gofyn i adrannau Llywodraeth y DU ystyried a ddylid diwygio neu ddiddymu cyfraith o'r fath drwy 'broses gyflym'. A fyddai newidiadau o'r fath yn cael eu hystyried drwy brosesau'r fframweithiau, ac (os felly) sut?***
Mae'r fframweithiau'n bodoli mewn perthynas â chymhwyso cyfraith yr UE a ddargedwir. Byddwn yn rhagweld y bydd proses ar wahân yn cael ei chynnal os caiff y cyfreithiau hyn eu cynnig i'w diwygio neu eu diddymu. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU wrth i'w hadolygiad o gyfraith yr UE a ddargedwir gael ei ddatblygu, yn ogystal â'r Llywodraethau Datganoledig eraill, i ddeall unrhyw oblygiadau posibl i Gymru.

***Cwestiwn 10: A all Llywodraeth Cymru gadarnhau na fydd y naill fframwaith na'r llall yn rhyngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU***
Cydnabuwyd wrth ddatblygu'r fframweithiau hyn fod rhyngberthynas rhwng y fframweithiau hyn a Deddf Marchnad Fewnol y DU (UKIMA). Os bydd ymwahanu polisi a chynnig gan un llywodraeth i reoleiddio yn y maes polisi hwn mewn ffordd a allai gynnwys cymhwyso egwyddorion mynediad Deddf Marchnad Fewnol y DU, bydd "Process for considering UK Internal Market Act exclusions in Common Framework areas" yn gymwys[1].

**Rhwymedigaethau rhyngwladol**

***Cwestiwn 11: Pa rwymedigaethau rhyngwladol sydd yn y meysydd polisi hyn?***
Mewn perthynas â'r meysydd polisi penodol hyn, rhaid i sefydliadau'r GIG a'r awdurdod rheoleiddio ddilyn y safonau ansawdd a diogelwch presennol fel y'u nodir yn Rheoliadau Diogelwch ac Ansawdd Gwaed 2005, Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu 2012 a Rheoliadau Meinweoedd Dynol (Ansawdd a Diogelwch at Ddefnydd mewn Bodau Dynol) 2007 a nododd ofynion amrywiol, er enghraifft, ar gyfer olrhain, mewnforio ac allforio'r deunyddiau hyn yn rhyngwladol.

***Cwestiwn 12: Sut mae'r fframwaith yn ystyried rhwymedigaethau rhyngwladol?***
Nid yw'r fframweithiau hyn yn ymdrin yn benodol â rhwymedigaethau rhyngwladol – ac felly nid ydynt yn newid rhwymedigaethau presennol y mae sefydliadau eisoes yn gyfarwydd â hwy.

***Cwestiwn 13: Sut y bydd y fframwaith yn cael ei ddiwygio yn y dyfodol i adlewyrchu rhwymedigaethau rhyngwladol newydd?***
fel ar gyfer Cwestiwn 12.

---

[1] Process for considering UK Internal Market Act exclusions in Common Framework areas

## Llywodraethu a datrys anghydfod

***Cwestiwn 14: A ydych chi'n ystyried bod y dulliau datrys anghydfod o ran y fframweithiau yn ddigon cadarn i ateb y diben arfaethedig?***
Ydwyf, rwyf yn credu bod y mecanweithiau'n gadarn ac yn gymesur. Mae'r rhain wedi'u datblygu a chytunwyd arnynt ar y cyd gan bedair gwlad y DU.

***Cwestiwn 15: Pwy fydd y canolwr terfynol os bydd anghydfod, ac a fydd hawl i apelio os bydd un o'r partïon yn anfodlon â'r modd y cafodd yr anghydfod ei ddatrys?***
Mae'r materion hyn wedi'u cynllunio i'w cytuno drwy drafodaeth a lefelau priodol o uwchgyfeirio, fel y nodir yn nogfennau'r fframwaith. Ein profiad o ddelio â llywodraethau eraill yn y DU mewn perthynas â materion deddfwriaethol yn y meysydd polisi hyn yw bod lefel uchel o barodrwydd ar y cyfan i chwilio am atebion sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr. Dylid nodi hefyd y bydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, a sefydlwyd o dan yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, yn monitro'r rhaglen fframweithiau gan gynnwys unrhyw rwystrau i gynnydd.

***Cwestiwn 16: A fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Senedd am anghydfodau a godir drwy'r fframwaith***
Bydd. Rwyf yn fodlon ymrwymo i ysgrifennu at y Pwyllgor(au) priodol os codir unrhyw anghydfod.

## Datblygiad y fframweithiau

***Cwestiwn 17: Sut gwnaeth Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid o ran datblygu'r fframweithiau? Sut mae pob fframwaith yn adlewyrchu ymatebion rhanddeiliaid yng Nghymru?***
Arweiniodd Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer y fframweithiau, a gwnaethom sicrhau bod hyn yn cynnwys rhanddeiliaid priodol yng Nghymru, gan gynnwys Gwasanaeth Gwaed Cymru (WBS), Grŵp Cynghori Cymru ar Drawsblannu (WTAG) a thimau trawsblannu. Roedd y sylwadau a ddaeth i law oddi wrth randdeiliaid yng Nghymru yn gefnogol i raddau helaeth i gynnwys y fframweithiau drafft. Rhoddodd Gwasanaeth Gwaed Cymru'r sylwadau mwy sylweddol ar destun y ddogfen a gwnaed newidiadau i adlewyrchu'r sylwadau hynny, er enghraifft ynghylch rhyngddibyniaethau â deddfwriaeth dyfeisiau meddygol.

## Adolygu a diwygio

***Cwestiwn 18: Sut y bydd y Senedd a rhanddeiliaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad parhaus y fframweithiau***
Bydd swyddogion yn monitro gweithrediad y fframweithiau penodol sy'n berthnasol i'w meysydd polisi ac yn gofyn am fewnbwn gan randdeiliaid fel y bo'n briodol, er enghraifft gyda WBS ac WTAG. Mewn ystyr fwy cyffredinol, bydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn monitro cynnydd y rhaglen fframweithiau er mwyn cyflawni'r rôl a roddir iddo gan yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, fel yr amlinellir yn niweddariad cynnydd Llywodraeth y DU ym mis Mawrth 2021, i '*Provide oversight of the common frameworks programme and its governance arrangements*'. Y disgwyl yw y bydd adroddiadau ar fframweithiau yn ddogfennau cyhoeddus unwaith y byddant wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion portffolio a byddant ar gael i'r pwyllgorau perthnasol yn y pedair gwlad yn ogystal â rhanddeiliaid perthnasol.

***Cwestiwn 19: Sut y bydd y Senedd a rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at y broses o adolygu a diwygio o ran y fframweithiau?***
Mae'r dogfennau fframwaith yn nodi y bydd adolygiad yn cael ei gynnal ar ôl blwyddyn. Gall unrhyw Barti i'r Fframwaith ddefnyddio trydydd partïon i roi cyngor ar unrhyw adeg yn y

broses ac felly byddwn yn gofyn am farn rhanddeiliaid perthnasol yn ystod y broses adolygu fel y bo'n briodol.

***Cwestiwn 20: Os bydd newidiadau yn y dyfodol, sut y bydd y Senedd yn cael gwybod amdanynt? Pa weithdrefn graffu a gaiff ei defnyddio mewn perthynas a'r newidiadau?***

Os gwneir newidiadau i'r fframweithiau, bydd y rhain yn cael eu hysbysu i bwyllgorau'r Senedd er mwyn iddynt gyflawni lefel y gwaith craffu sy'n briodol ac yn angenrheidiol yn eu barn hwy.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**—**
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

17 Rhagfyr 2021

Annwyl Eluned

Fframweithiau cyffredin dros dro: Diogelwch ac Ansawdd Gwaed, Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau)

Er mwyn llywio ein hystyriaeth o fframweithiau cyffredin ar gyfer Diogelwch ac Ansawdd Gwaed, Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), byddem yn hoffi cael barn Llywodraeth Cymru ar y materion a nodir yn yr atodiad i'r llythyr hwn erbyn dydd Iau 13 Ionawr 2022.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

cc Huw Irranca-Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad: Fframweithiau cyffredin: cais am ragor o wybodaeth

Er mwyn cynorthwyo ein trafodaethau ar fframweithiau cyffredin ar gyfer Diogelwch ac Ansawdd Gwaed, Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), byddem yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am y materion a restrir isod. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn anfon eich ymateb erbyn dydd Iau, 13 Ionawr.

### Cyffredinol

1. Pam mae angen fframweithiau cyffredin ar gyfer y meysydd polisi hyn?

2. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â swyddogaethau newydd yn y meysydd polisi hyn yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Sut mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod ganddi'r adnoddau a'r arbenigedd i arfer y swyddogaethau hyn yn effeithiol?

3. Pa rôl sydd gan Lywodraeth Cymru o ran goruchwylio gwaith y Pwyllgor Cynghori Annibynnol ar Ddiogelwch Gwaed, Meinweoedd ac Organau a Chyd-bwyllgor Cynghori Proffesiynol ar Wasanaethau Trallwyso Gwaed a Thrawsblannu Meinwe y DU?

### Rheoli ymwahanu

4. Mae'r fframweithiau yn nodi y byddant yn caniatáu ar gyfer 'ymwahanu angenrheidiol' o fewn y DU. A allech chi nodi beth yw ystyr 'angenrheidiol' yn y cyd-destun hwn?

5. A ydych o'r farn bod y fframweithiau yn rhoi cyfle priodol i Lywodraeth Cymru a'r Senedd lunio cyfraith a pholisi ar gyfer Cymru?

6. A fydd y fframweithiau yn cael unrhyw effaith ar ddeddfwriaeth neu bolisïau presennol Cymru neu ei deddfwriaeth neu'i pholisïau yn y dyfodol?

7. Sut fyddai'r fframweithiau'n effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i ymateb i sefyllfaoedd brys, fel afiechydon newydd sy'n dod i'r amlwg?

8. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn bwriadu mabwysiadu newidiadau i ddeddfwriaeth ar waed, meinweoedd a chelloedd yn gynnar yn 2022. A yw'r fframwaith yn caniatáu digon o gyfle i Lywodraeth Cymru wneud newidiadau cyfatebol ar gyfer Cymru, ac a ydych yn bwriadu gwneud hyn?

9. Fel rhan o'i hadolygiad o gyfraith yr UE a ddargedwir, mae Llywodraeth y DU yn gofyn i adrannau Llywodraeth y DU ystyried a ddylid diwygio neu ddiddymu cyfraith o'r fath drwy 'broses gyflym'. A fyddai newidiadau o'r fath yn cael eu hystyried drwy brosesau'r fframweithiau, ac (os felly) sut?

10. A all Llywodraeth Cymru gadarnhau na fydd y naill fframwaith na'r llall yn rhyngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU?

## Rhwymedigaethau rhyngwladol

11. Pa rwymedigaethau rhyngwladol sydd yn y meysydd polisi hyn?

12. Sut mae'r fframwaith yn ystyried rhwymedigaethau rhyngwladol?

13. Sut y bydd y fframwaith yn cael ei ddiwygio yn y dyfodol i adlewyrchu rhwymedigaethau rhyngwladol newydd?

## Llywodraethu a datrys anghydfod

14. A ydych chi'n ystyried bod y dulliau datrys anghydfod o ran y fframweithiau yn ddigon cadarn i ateb y diben arfaethedig?

15. Pwy fydd y canolwr terfynol os bydd anghydfod, ac a fydd hawl i apelio os bydd un o'r partïon yn anfodlon â'r modd y cafodd yr anghydfod ei ddatrys?

16. A fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Senedd am anghydfodau a godir drwy'r fframwaith?

## Datblygiad y fframweithiau

17. Sut gwnaeth Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid o ran datblygu'r fframweithiau? Sut mae pob fframwaith yn adlewyrchu ymatebion rhanddeiliaid yng Nghymru?

## Adolygu a diwygio

18. Sut y bydd y Senedd a rhanddeiliaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad parhaus y fframweithiau?

19. Sut y bydd y Senedd a rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at y broses o adolygu a diwygio o ran y fframweithiau?

20. Os bydd newidiadau yn y dyfodol, sut y bydd y Senedd yn cael gwybod amdanynt? Pa weithdrefn graffu a gaiff ei defnyddio mewn perthynas â'r newidiadau?

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cydsynio i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru** |
| **DYDDIAD** | **20 Ionawr 2022** |
| **GAN** | **Mick Antoniw, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad** |

Ysgrifennaf i hysbysu'r Senedd am gydsyniad diweddar i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru. Ceisiwyd cytundeb i wneud Gorchymyn Deddf Nawdd Cymdeithasol (Yr Alban) 2018 (Cymorth Anabledd a Rhannu Gwybodaeth) (Darpariaeth Ganlyniadol ac Addasiadau) 2022. Hwn yw'r ail Orchymyn i gael ei wneud o dan adran 104 o Ddeddf yr Alban 1998 o ganlyniad i adran 31 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Yr Alban) 2018.

Mae adran 104 o Ddeddf yr Alban 1998 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol neu'n fuddiol o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan Ddeddf gan Senedd yr Alban.

Mae erthygl 11 o'r Gorchymyn arfaethedig yn diwygio rheoliad 53 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001. Bydd y diwygiadau yn galluogi unigolion cymwys i ymgeisio am bleidlais drwy ddirprwy yn etholiadau Senedd y DU ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr heb fod angen prawf o'u cais (heb fod angen iddo gael ei ardystio) os ydynt yn derbyn yr elfen symudedd o gymorth anabledd newydd yn yr Alban, a elwir yn Daliad Anabledd i Oedolion (ADP), ar y raddfa uwch. Mae'r diwygiadau i reoliad 53, i'r graddau eu bod yn berthnasol i geisiadau am bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, yn gwneud darpariaeth mewn maes sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Effaith y Gorchymyn yw bod unigolion sydd wedi symud i Gymru yn ddiweddar ac sy'n parhau, am y tro, i dderbyn yr elfen symudedd o'r cymorth ADP ar y raddfa uwch sy'n daladwy yn yr Alban yn dal yn gymwys i ymgeisio am bleidlais drwy ddirprwy mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru heb fod angen prawf o'u cais (heb fod angen iddo gael ei ardystio), ar yr amod y bodlonir yr holl amodau cofrestru perthnasol.

Mae'r diwygiad arfaethedig yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd cyn hyn gan Orchymyn Deddf Nawdd Cymdeithasol (Yr Alban) 2018 (Cymorth Anabledd, Grantiau Gofalwyr Ifanc,

Cymorth Tymor Byr a Chymorth Gwresogi'r Gaeaf) (Darpariaeth Ganlyniadol ac Addasiadau) 2021 mewn perthynas ag unigolion sy’n derbyn yr elfen symudedd o gymorth anabledd i blant a phobl ifanc ar y gyfradd uwch yn yr Alban.

Bydd y diwygiad yn rhoi parhad i unigolion ac yn caniatáu iddynt gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd ar yr un sail ag y byddent wedi bod yn gymwys i’w wneud pe bai eu hawliad newydd am fudd-daliadau nawdd cymdeithasol sy’n daladwy yng Nghymru wedi cael ei brosesu ar yr adeg berthnasol. Gan mai am gyfnod byr y byddai hyn, ac mae’n debygol mai cyfyngedig fyddai’r effaith, cytunais felly fod Llywodraeth y DU yn parhau â’r Gorchymyn ar yr un sail â Gorchymyn 2021.

Bydd y Gorchymyn yn cael ei osod gerbron Senedd y DU ar 27 Ionawr 2022.

Eitem 6.1

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

17 Ionawr 2022

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Rhagfyr 2021 ac am ddiddordeb diflino'r Pwyllgor yn ein gwaith i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

*Galwadau ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol*

Pan ymddangosais gerbron y Pwyllgor cytunais i ysgrifennu at y Pwyllgor i helpu'r Aelodau i ddeall graddau'r galwadau ar y Llywodraeth o ran deddfu ac i egluro effaith y galwadau hyn ar allu'r Llywodraeth i ddeddfu.

Mae ymadael â'r UE a'r pandemig, gyda'i gilydd, wedi rhoi pwysau na welwyd eu tebyg ar y Llywodraeth ac wedi effeithio ar bron bob rhan o'r sefydliad. Nid yw ein rhaglen ddeddfwriaethol yn eithriad i hynny. Mae sawl un a fyddai fel arfer wedi bod yn gweithio ar ddatblygu Biliau i'w cynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol wedi gorfod troi i weithio ar yr holl ddeddfwriaeth a wnaed mewn ymateb i'r amgylchiadau hynny.

Mae'r pandemig yn dal i roi pwysau aruthrol ar ein gallu i ddeddfu. Ers dechrau Chwefror 2020 mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud dros 280 darn o is-ddeddfwriaeth mewn ymateb i ledaeniad y coronafeirws. Gwnaed dros 60 o'r rheini ers etholiadau'r Senedd ar 5 Mai 2021. Mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio pwerau sydd ar gael iddynt nid yn unig yn Neddf y Coronafeirws 2020 a Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ond hefyd mewn Deddfau eraill mewn sawl maes. Gwnaed Deddfwriaeth i ymdrin yn uniongyrchol ag iechyd a gofal cymdeithasol, fel y byddech yn ei ddisgwyl, ond hefyd i ymdrin ag amrywiaeth o faterion eraill, fel yr economi, trafnidiaeth, tai, addysg a llywodraeth leol. Rhaid adolygu'r ddeddfwriaeth hon yn gyson er mwyn sicrhau ei bod yn dal yn gymesur a rhaid ei newid yn rheolaidd gan ddibynnu ar lefel y risg i'r gwasanaeth iechyd ac i'r cyhoedd yn ehangach. Rydym wedi gorfod gwneud Rheoliadau yn gyflymach nag erioed o'r blaen, sydd ynddo'i hun yn gwneud defnydd dwys o adnoddau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae ein hadnoddau deddfwriaethol eisoes wedi wynebu cryn bwysau o ganlyniad i ymadael â'r UE a pharhaodd hyn yn ystod y pandemig. Fel yr amlinellais yn y datganiad ar y rhaglen ddeddfwriaethol ym mis Gorffennaf, golygodd hyn fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud dros 70 o Offerynnau Statudol ac wedi cydsynio i fwy na 200 o Offerynnau Statudol gan Lywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig, hyd at y pwynt hwnnw. Er nad ydym yn ymdrin â'r un swmp o is-ddeddfwriaeth mewn ymateb i ymadael â'r UE bellach, rydym wedi gwneud rhai offerynnau eraill ers mis Gorffennaf, fel Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2021, Rheoliadau Bwyd a Diod (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021, a Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) (Rhif 2) 2021.

Yn ystod 2021 gwnaeth Gweinidogion Cymru 384 o Offerynnau Statudol Cymru yn ogystal â 5 Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Ar ben hynny gwnaed rhyw 100 darn o is-ddeddfwriaeth drwy ddulliau heblaw Offeryn Statudol. O'r bron i 500 o offerynnau hyn, roedd 125 eitem yn ymwneud â'r coronafeirws, a hynny (fel y soniais uchod) yn ychwanegol at y 155 o offerynnau yn ymwneud â'r coronafeirws a wnaed yn 2020.

384 yw'r nifer fwyaf o Offerynnau Statudol Cymru inni eu gwneud erioed mewn un flwyddyn (o'i gymharu â chyfartaledd o 310 y flwyddyn yn ystod y 10 mlynedd blaenorol).

Fel arfer mae datblygu deddfwriaeth sylweddol ac arwyddocaol fel hyn yn golygu misoedd lawer o waith, neu'n wir flynyddoedd, i staff sy'n fedrus yn dechnegol, cyn y gellir ei dwyn gerbron y Senedd. Golygodd galwadau ymadael â'r UE a'r pandemig fod rhaid dargyfeirio amryw o'r swyddogion hyn oddi wrth rywfaint o'r gwaith datblygu a fyddai wedi digwydd fel arall ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Yn anffodus, mae'r ffaith fod yr argyfwng iechyd y cyhoedd yn parhau a'r amser sydd ei angen fel arfer ar gyfer y broses o ddatblygu polisi ac ymgynghori ar gynigion deddfwriaeth sylfaenol (yn arbennig), yn golygu y byddwn yn dal i brofi'r effeithiau hyn am beth amser eto.

Mae'r angen i ymateb i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn dwysáu'r sefyllfa. Fel yr eglurais wrth y Pwyllgor, rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried pob Bil gan Lywodraeth y DU yn ofalus. Rhaid cydbwyso'r angen i amddiffyn y setliad datganoli sydd ohoni, hyd y gellir, a'r egwyddor y dylem ddeddfu ein hunain yma yng Nghymru, â'r cyfleoedd a all godi i wella'r gyfraith ar gyfer dinasyddion Cymru. Bu pwysau'r broses hon hefyd yn sylweddol, wrth inni orfod ystyried 14 o Filiau newydd hyd yn hyn ers Mai 2021, o gymharu â 9 yn 2016/17, 6 yn 2017/18, 7 yn 2018/19, 4 yn 2019/20 a 19 yn 2020/21. Bu'n anodd rhagweld y gwaith hwn ac yn aml roedd rhaid inni ymateb i Filiau'r DU heb fawr o rybudd ymlaen llaw. Serch hynny, mae'n werth nodi fod yr effaith gryn dipyn yn llai nag a fyddai pe baem wedi gwneud darpariaeth gyfatebol yn ein deddfwriaeth ein hunain.

Dyma'r amgylchiadau sydd wedi cyfyngu ar ein gallu i fwrw ymlaen â'r rhaglen ddeddfwriaethol. O ganlyniad, er mwyn bwrw ymlaen â'r rhaglen bu'n rhaid inni wneud mwy i nodi ein blaenoriaethau. Rydym wedi blaenoriaethu drwy ganolbwyntio ein hadnoddau ar y materion hynny y mae'n hanfodol yn eu cylch gan mai hynny yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ymdrin â phroblemau. Rydym hefyd wedi ceisio defnyddio dulliau heblaw deddfwriaeth sylfaenol lle gallai hynny fod yn ffordd fwy effeithiol neu briodol o gael y maen i'r wal. Nodwyd mai dim ond un Bil Llywodraeth oedd gerbron y Senedd adeg gwrandawiad y Pwyllgor (mae ail Fil wedi'i gyflwyno ers hynny, ar 13 Rhagfyr), ond mae bwriad i gyflwyno nifer o Filiau pwysig eraill yn ystod tymor y gwanwyn a'r haf. Cyfeiriais at y rhain yn fy natganiad ym mis Gorffennaf, ac mae ein Rhaglen Lywodraethu'n amlinellu'r ddeddfwriaeth y bwriedir ei gwneud yn ystod y Chweched Senedd drwyddi draw.

Yn ychwanegol at hynny, fel yr eglurais yn fy natganiad ym mis Gorffennaf, mae rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth hefyd yn cynnwys darnau pwysig o is-ddeddfwriaeth sy’n cyfrannu’n helaeth at weithredu Deddfau Senedd Cymru. Fel y soniais wrth y Pwyllgor, mae’r Llywodraeth yn canolbwyntio’n arbennig ar sicrhau bod deddfwriaeth Rhentu Cartrefi yn cael ei gweithredu ar hyn o bryd, yn ogystal â rhaglenni gweithredu Deddfau sy’n ymdrin ag adolygu’r cwricwlwm ac asesu, diwygio anghenion dysgu ychwanegol a llywodraeth leol ac etholiadau. Gwnaed cyfanswm o 75 darn o is-ddeddfwriaeth ers yr etholiad, heb gynnwys y rhai a wnaed mewn ymateb i’r coronafeirws ac ymadael â’r UE.

*Dosbarthu cyfraith Cymru*

Yn ystod sesiwn y Pwyllgor trafodwyd y prosiect i ddosbarthu cyfraith Cymru hefyd. Mae dau ddiben i’r gwaith hwn. Yn y tymor hir bydd yn darparu strwythur enghreifftiol ar gyfer Codau cyfraith Cymru, yn enwedig ar y lefel uchaf. Disgwyliwn weld Codau mewn meysydd fel tai, addysg a threthi. Ond ymhell cyn hynny dyma’r prif ddull y byddwn ni, ar y cyd â’r tîm yn yr Archifau Gwladol, yn ei ddefnyddio i drefnu cyfraith Cymru ar legislation.gov.uk.

Rydym wrthi’n mireinio’r dacsonomeg yr ymgynghorwyd arni yn 2019 (a ddatblygwyd gyda golwg ar Godau Cyfraith Cymru yn y dyfodol), fel ei bod yn darparu strwythur addas ar gyfer trefnu cyfraith Cymru sydd ohoni. Fel rhan o’r gwaith hwnnw rydym yn ystyried sawl lefel o is-bynciau ddylai ffurfio’r model dosbarthu – mewn geiriau eraill, i ba lefel o fanylder y dylid ddosbarthu pwnc addysg, er enghraifft? Byddwn hefyd yn edrych ar y derminoleg a ddefnyddir er mwyn deall pa dermau sydd fwyaf defnyddiol a naturiol i’r defnyddiwr. Mae angen inni gysylltu â phobl y byddem yn disgwyl iddynt ddefnyddio’r gwasanaeth newydd, yn ogystal â’r rheini sydd eisoes yn darparu gwybodaeth (fel y rheini sy’n darparu gwasanaethau tanysgrifio ar gyfer deddfwriaeth) i ddeall sut y maent wedi datblygu eu modelau dosbarthu hwy. Rydym eisoes wedi dechrau gwneud hyn ond rydym yn awyddus i ymhelaethu ar y trafodaethau hynny. Rydym hefyd wedi dechrau trafodaethau cychwynnol gyda’r Archifau Gwladol, a fydd angen datblygu’r seilwaith technegol y tu cefn i legislation.gov.uk i gefnogi’r swyddogaeth newydd hon, yn ogystal â sicrhau nad yw’r datblygiadau ar gyfer Cymru yn effeithio ar y ffordd y mae eu system yn gweithredu’n ehangach ar gyfer Llywodraethau a defnyddwyr eraill.

Fel yr eglurais wrth y Pwyllgor, disgwyliwn i’r gwaith hwn ddigwydd yn ystod y tri i chwe mis nesaf. Ond mae hyn yn dibynnu ar ein gallu i brofi gyda defnyddwyr mewn ffordd ddiogel yng ngoleuni risgiau parhaus y pandemig, ac i ba raddau y mae eraill ar gael, sydd hefyd angen gweithio’n ddiogel. Byddaf yn rhoi gwybod i’r Pwyllgor sut mae’r gwaith yn dod yn ei flaen.

Byddaf hefyd yn ysgrifennu at y Pwyllgor cyn hir gyda mwy o fanylion am ein cyswllt ag ymarferwyr ar y cynigion i foderneiddio ffurf a strwythur deddfwriaeth Cymru.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**—**

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

**—**

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

3 Rhagfyr 2021

Annwyl Mick

Dilyniant i'r sesiwn dystiolaeth ar 29 Tachwedd 2021

Diolch am ymuno â ni ar 29 Tachwedd i roi tystiolaeth ar raglen Codau Cyfraith Cymru a'ch cynigion ar gyfer hygyrchedd cyfraith Cymru.

Roeddem yn ddiolchgar am ichi roi o'ch amser ac yn benodol, am eich cynnig i ddarparu gwybodaeth ychwanegol o ran adnoddau a gallu Llywodraeth Cymru i reoli ei rhaglen ddeddfwriaethol.

Yn ogystal, dywedasoch wrthym y gallai gwaith ar ddosbarthu cyfraith Cymru symud ymlaen o fewn y tri i chwe mis nesaf. Byddem yn croesawu unrhyw eglurder a manylion pellach y gallwch eu darparu o ran amserlenni'r gwaith hwn.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych cyn gynted â phosibl.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Eitem 6.2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JMEWL/4183/21

Huw Irranca Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddDCC@senedd.cymru

18 Ionawr 2022

Annwyl Huw,

Ysgrifennaf yn dilyn dadl y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 ("y Bil") a gynhaliwyd ar 11 Ionawr.

Rwy'n ddiolchgar am waith craffu'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y tri Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yr wyf wedi'u gosod ar y Bil. Diolch i'r Pwyllgor am eu harsylwadau a'u casgliadau manwl. Ymddiheuraf am beidio â darparu ymateb ffurfiol i adroddiad cyntaf y Pwyllgor a gyhoeddwyd ar 24 Tachwedd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cychwynnol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2) cyn y ddadl ar y Cynnig.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ymateb i'r argymhellion yn adroddiad mis Tachwedd a'r rhai yn adroddiad dilynol y Pwyllgor a gyhoeddwyd ar 10 Ionawr ynghylch y Memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 3).

**Cymalau 1 a 4 (Cynlluniau Gwella Sgiliau Lleol a Dehongli)**

**Argymhelliad 1** *(adroddiad 24 Tachwedd): Dylai'r Gweinidog, cyn dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, gadarnhau pa welliannau y byddai angen i Lywodraeth Cymru eu gweld yn cael eu gwneud i gymalau 1 a 4 o'r Bil er mwyn iddi argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r Bil.*

Roedd Llywodraeth Cymru'n ystyried nad oedd cymalau 1 a 4 o'r Bil fel y'u cyflwynwyd i'r Senedd yn parchu'r setliad datganoli am eu bod yn ceisio gosod dyletswyddau ar sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru. Ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg ar 9 Gorffennaf 2021 yn nodi fy mhryderon. Dywedais hefyd nad oeddwn yn fodlon argymell y dylid rhoi cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau hyn.

Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i'r cymalau hyn a dderbyniwyd yng ngham Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi ar 12 Hydref 2021. Yn anffodus, nid oedd y gwelliannau hynny'n mynd i'r afael yn ddigonol â'r mater o bryder, sef gosod dyletswyddau statudol ar

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sefydliadau yng Nghymru nad oeddwn yn ystyried eu bod yn angenrheidiol nac yn gymesur. Ysgrifennais eto at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg ar 29 Hydref 2021 yn gofyn am gyflwyno gwelliannau pellach i ddileu sefydliadau Cymru o ddyletswyddau'r cynlluniau gwella sgiliau lleol.

Parhaodd y trafodaethau ar lefel swyddogol a chyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau ar gyfer cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin a dderbyniwyd ac a gafodd yr effaith o dynnu sefydliadau Cymru o gymal 1 y Bil. Fe wnaeth y Memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 3) a osodais ar 10 Rhagfyr 2021 ddiweddaru'r Senedd ar effaith y gwelliannau hyn a nodi nad oedd angen cydsyniad y Senedd mwyach mewn perthynas â chymalau 1 a 4.

**Cymal 25 (Darparu cyfleoedd ar gyfer addysg a datblygu sgiliau)**

***Argymhelliad 2*** *(adroddiad 24 Tachwedd): Dylai'r Gweinidog, cyn dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, gadarnhau pam na ddylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 25 newydd yn y Bil fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin.*

Cafodd cymal 25 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ei gynnwys yn y Bil ar ôl derbyn gwelliant anllywodraethol yn ystod cyfnod Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi. Roedd y cymal hwn yn darparu bod gan unrhyw berson o unrhyw oedran yr hawl i gael addysg am ddim ar gwrs cymeradwy hyd at Lefel 3 a gyflenwir gan ddarparwr addysg bellach neu dechnegol cymeradwy, os nad ydynt eisoes wedi astudio ar y lefel honno; a bod yn rhaid darparu cyllid i'r darparwr cymeradwy at y diben hwnnw. Roedd hefyd yn gosod gofynion ar gyflogwyr mewn perthynas â chronfeydd gwariant ar gyfer pobl ar brentisiaethau sydd o dan 25 oed.

Cytunaf ag asesiad y Pwyllgor fod cymal 25 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin yn ymestyn i awdurdodaeth Cymru a Lloegr ac nad oedd dim yn ei gynnwys yn cyfyngu ar ei gymhwyso i Loegr. Pe bai'r cymal hwn wedi aros yn y Bil, byddai angen cydsyniad y Senedd.

Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau a dderbyniwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin a dynnodd y cymal hwn o'r Bil. Rhoddodd y Memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 3) yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am gynnwys y cymal hwn yn y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi, ei effaith a'i ddileu wedyn.

**Cymal 31 (Sefydliadau o fewn y sector addysg bellach: dynodi)**

***Argymhelliad 1.*** *(adroddiad 10 Ionawr): Dylai'r Gweinidog, cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, gadarnhau pam na ddylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 31 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin.*

Nodaf fod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o'r farn y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal hwn. Rwyf wedi dod i farn wahanol. Credaf hefyd mai cymal 32 yw'r cymal dan sylw ar hyn o bryd.

Mae cymal 32 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin (cymal 25 ar yr adeg y'i cyflwynwyd) yn gwneud darpariaeth ynghylch dynodi sefydliadau yn y sector addysg bellach. Mae'n diwygio adrannau 28 ac 89 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i newid y mecanwaith y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei defnyddio i ddynodi sefydliadau addysgol yn Lloegr fel rhai sy'n dod o fewn y sector addysg bellach statudol. Mae'r diwygiadau o sylwedd i Ddeddf 1992 yn ymwneud â newidiadau gweithdrefnol i ddynodi sefydliadau yn Lloegr yn unig. Mae is-adran (2) o'r cymal yn gymwys o ran Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r cymal hwn yn gwneud unrhyw newidiadau i'r gyfraith – dim ond egluro ac ailddatgan y gyfraith mewn perthynas â Chymru.

Yn fy marn i, dim ond o ganlyniad i'r ddarpariaeth o sylwedd a wneir mewn perthynas â Lloegr y mae’n ailddatgan y gyfraith fel y mae'n gymwys i Gymru. Er y byddai ailddatgan y gyfraith i Gymru mewn perthynas â'r mater hwn at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae'r ailddatganiad hwn yn ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith yn adran 28 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ar gyfer Lloegr. Mae'r sefyllfa hon wedi'i heithrio yn Rheol Sefydlog 29.1(i) sy'n diffinio Bil perthnasol fel Bil sy'n cael ei ystyried yn Senedd y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru "at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd)". O ganlyniad, fel y nodais yn y ddadl ar y Cydsyniad Deddfwriaethol a gynhaliwyd ar 11 Ionawr, credaf nad oes angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â chymal 32.

Hyderaf y bydd yr ymatebion a ddarparwyd gennyf uchod yn ddefnyddiol a diolchaf ichi unwaith eto am eich gwaith.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Jayne Bryant AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwylgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

18 Ionawr 2022

Annwyl Huw,

Rwy’n ysgrifennu atoch mewn perthynas â'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ar 17 Ionawr ynglŷn â'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a’r Llysoedd a osodwyd ar 20 Rhagfyr 2021 a 7 Ionawr 2022.

Rwy’n nodi eich dau argymhelliad ac mae fy ymateb wedi'i amlinellu isod.

*Argymhelliad 1. Cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, dylai’r Gweinidog egluro’r gwahaniaeth rhwng y ffigur a nodir ym mharagraff 3 o Femorandwm Rhif 3 a nifer y cymalau a restrir wedi hynny ym mharagraffau 9 i 13*.

Ymateb:

Digwyddodd gwall wrth ddrafftio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) (SLCM Rhif 3). Dylai paragraff 3 o SLCM (Rhif 3) fod wedi nodi bod 18 cymal sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd yn hytrach na 15.

Y 18 cymal y cyfeirir atynt ym mharagraffau 9 i 13 o SLCM (Rhif 3) yw'r rhai a ddiwygiwyd gan welliannau a osodwyd ar 1 Rhagfyr 2021 ac a ddylai fod yn destun Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.
.

*Argymhelliad 2. Cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, dylai'r Gweinidog esbonio pam mae’r sefyllfa o ran goblygiadau ariannol wedi newid.*

Ymateb:

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dylai'r wybodaeth am oblygiadau ariannol fod wedi'i chynnwys ym mhob un o'r Memoranda a osodwyd mewn perthynas â'r Bil. Gwall drafftio oedd yn gyfrifol am hepgor yr wybodaeth hon, a dim ond cyn cyhoeddi SLCM (Rhif 3) y cafodd y gwall ei nodi.

Hoffwn ymddiheuro am y camgymeriad a gallaf gadarnhau, fel y nodwyd yn SLCM (Rhif 3) a SLCM (Rhif 4) y bydd goblygiadau ariannol yn deillio o’r Bil, o bosibl, ond na fydd hyn yn glir hyd nes y gweithredir y mesurau yn y Bil.

Anfonir copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Jenny Rathbone AS, a holl Aelodau'r Senedd.

Yr eiddoch



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Eitem 6.4

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddDCC@senedd.cymru

18 Ionawr 2022

Annwyl Cadeirydd,

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 5 Tachwedd, mewn perthynas â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Rwyf wedi nodi ymatebion i bob un o'ch cwestiynau isod.

*A yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw ymateb i'w chais i gael rôl ehangach na'r hyn sydd ynghlwm wrth gael statws sylwedydd yn y Cyngor Partneriaeth a sefydlwyd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu?*

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o lythyr Gweinidog yr Economi at yr Arglwydd Frost ym mis Mehefin 2021, a oedd yn glir y dylai Gweinidogion Cymru allu cyfrannu ar faterion sy'n dod o fewn cymhwysedd datganoledig fel cyfranogwyr gweithredol yng nghyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth, a dyma ein safbwynt ni o hyd. Ni chafwyd ymateb ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU ond rydym yn bwriadu codi hyn gyda'r Ysgrifennydd Tramor o ystyried ei chyfrifoldebau newydd dros berthynas y DU a'r UE.

*Beth yw rôl swyddogion Llywodraeth Cymru yn y Gweithgorau a'r Pwyllgorau a sefydlwyd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu? Yn benodol:*

- *a fyddai modd i chi gadarnhau a yw swyddogion Llywodraeth Cymru yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i gymryd rhan ym mhob un o gyfarfodydd y Gweithgorau a'r Pwyllgorau, neu a ydynt yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd penodol yn unig?*
- *a fyddai modd i chi nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi gwybodaeth i'r Senedd am y rôl y mae'n ei chwarae yn y cyfarfodydd hyn, y materion a gaiff eu trafod yn ystod y cyfarfodydd, ac unrhyw gytundebau sy'n cael eu taro?*

Nid ydym yn cael ein gwahodd yn rheolaidd i gymryd rhan ym mhob Pwyllgor, ond mewn perthynas â'r Pwyllgorau a'r Gweithgorau hynny lle mae gennym fuddiant datganoledig, mae ymgysylltu ar lefel swyddogol rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi bod yn dda ar y cyfan. Mae swyddogion wedi bod yn rhan o'r paratoadau ar gyfer nifer o'r Pwyllgorau Arbenigol a'r Pwyllgorau Arbenigol Masnach, ac yna maent wedi mynychu'r Pwyllgorau hyn fel sylwedyddion. Mae hyn yn cynnwys y Pwyllgorau Arbenigol ar Ynni; Pysgodfeydd; Mesurau Iechydol a Ffytoiechydydol (SPS); Gorfodi'r Gyfraith a Chydweithredu Barnwrol; a Rhaglenni'r Undeb; a'r Pwyllgorau Masnach Arbenigol ar

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nwyddau; Masnach mewn Gwasanaethau, Buddsoddi a Digidol; Tegwch yn y Farchnad a Chystadleuaeth Agored a Theg a Datblygu Cynaliadwy; a Rhwystrau Technegol i Fasnach.

Oherwydd bod Llywodraethau Datganoledig o fewn cwmpas Pennod Arferion Rheoleiddio Da'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, mae gan swyddogion Llywodraeth Cymru rôl fwy gweithredol fel rhan o ddirprwyaeth y DU ar gyfer y Pwyllgor Arbenigol ar Gydweithredu Rheoleiddiol. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan yn y gwaith o baratoi deunyddiau ar gyfer y Pwyllgor a chytuno ar agendâu, cofnodion a deunyddiau cysylltiedig.

Sefydlwyd cyn-gyfarfodydd swyddogol ar lefel gweithredol er mwyn trafod eitemau posibl ar yr agenda, a safbwyntiau'r DU ar faterion a gaiff eu trafod rhwng y DU a'r UE yn y Pwyllgorau eu hunain. Mae'r cyn-gyfarfodydd hyn yn fewnol i'r llywodraeth. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ymgynghori â'r Llywodraethau Datganoledig ar safbwyntiau'r DU, ond os na ellir cytuno ar safbwynt y DU, mae Llywodraeth y DU yn cadw'r hawl i benderfynu pa ddull y bydd y DU yn ei gymryd. Cyhoeddir cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor ar wefan y Comisiwn Ewropeaidd, yn: Cyfarfodydd Cyngor Partneriaeth yr UE a'r DU a Phwyllgorau Arbenigol o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu | Y Comisiwn Ewropeaidd (europa.eu) (fe'u cyhoeddir hefyd ar gov.uk, ond nid mewn un man). Byddwn yn parhau i gyhoeddi Datganiadau Ysgrifenedig Gweinidogol yn dilyn cyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth. Hefyd, yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am gyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol newydd ar berthynas y DU a'r UE, y disgwyliwn iddo gael ei sefydlu yn dilyn y cyhoeddiad diweddar ar ganlyniad yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.

*A yw Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno unrhyw sylwadau i Lywodraeth y DU ar rôl cynrychiolwyr Cymru yn y Fforwm Cymdeithas Sifil a'r Grŵp Cynghori Domestig a sefydlwyd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu?*


Mae swyddogion o Lywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd lle trafodir materion sy'n ymwneud â llywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu'n gadarnhaol, ac mae swyddogion datganoledig wedi pwysleisio ar sawl achlysur bwysigrwydd sicrhau bod aelodaeth y grwpiau hyn yn cynrychioli pob rhan o'r DU yn ogystal â busnes a chymdeithas sifil.

*A yw Llywodraeth Cymru wedi cymryd unrhyw gamau i dynnu sylw sefydliadau, busnesau a chynrychiolwyr o Gymru at y Datganiad o Ddiddordeb ynghylch bod yn aelod o'r Fforwm Cymdeithas Sifil a'r Grŵp Cynghori Domestig?*

Pan gyhoeddwyd y Datganiad o Ddiddordeb, gofynnwyd i grwpiau Llywodraeth Cymru y mae eu cyfrifoldebau'n ymwneud â gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ledaenu'r Datganiad o Ddiddordeb i'w rhanddeiliaid.

Rwy'n gobeithio y bydd y Pwyllgor yn gweld yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,



**MARK DRAKEFORD**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

5 Tachwedd 2020

Annwyl Mark

Cytundebau rhwng y DU a'r UE: Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

Yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd gennym ddydd Llun yr wythnos hon, gwnaethom drafod y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â chytundebau rhwng y DU a'r UE. Yn sgil y trafodaethau hynny, cytunodd y Pwyllgor i ofyn am ragor o wybodaeth am nifer o faterion, yn enwedig mewn perthynas â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Felly, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu rhagor o fanylion mewn perthynas â'r pwyntiau a ganlyn:

1. A yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw ymateb i'w chais i gael rôl ehangach na'r hyn sydd ynghlwm wrth gael statws sylwedydd yn y Cyngor Partneriaeth a sefydlwyd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu?

2. Beth yw rôl swyddogion Llywodraeth Cymru yn y Gweithgorau a'r Pwyllgorau a sefydlwyd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu? Yn benodol:

   - a fyddai modd i chi gadarnhau a yw swyddogion Llywodraeth Cymru yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i gymryd rhan ym mhob un o gyfarfodydd y Gweithgorau a'r Pwyllgorau, neu a ydynt yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd penodol yn unig?

   - a fyddai modd i chi nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi gwybodaeth i'r Senedd am y rôl y mae'n ei chwarae yn y cyfarfodydd hyn, y materion a gaiff eu trafod yn ystod y cyfarfodydd, ac unrhyw gytundebau sy'n cael eu taro?



Senedd Cymru
Welsh Parliament

3. A yw Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno unrhyw sylwadau i Lywodraeth y DU ar rôl cynrychiolwyr Cymru yn y Fforwm Cymdeithas Sifil a'r Grŵp Cynghori Domestig a sefydlwyd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu?

4. A yw Llywodraeth Cymru wedi cymryd unrhyw gamau i dynnu sylw sefydliadau, busnesau a chynrychiolwyr o Gymru at y Datganiad o Ddiddordeb ynghylch bod yn aelod o'r Fforwm Cymdeithas Sifil a'r Grŵp Cynghori Domestig?

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb gennych cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

seneddDCC@senedd.cymru

10 Ionawr 2022

Annwyl Gadeirydd,

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 10 Rhagfyr yn gofyn am wybodaeth ar gynigion Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, a sut y caiff adnoddau eu dyrannu i weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder.

Mae'r Atodiad i'r llythyr hwn yn nodi'r adnoddau yn y gyllideb ddrafft ar gyfer cyflawni'r gwaith ar gyfiawnder. Mae'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad yn ysgrifennu atoch ar wahân i drafod materion sy'n cynnwys capasiti deddfwriaethol a hygyrchedd cyfraith Cymru.

Rwy'n pwysleisio'r sylwadau a wnes i'r Pwyllgor blaenorol, fel yr amlinellwyd yn fy llythyr dyddiedig 26 Tachwedd 2020, nad yw gwariant ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder wedi'i ddadgyfuno ar wahân yn naill ai ein cyllideb na'n cyfrifon blynyddol. Mae hyn yn adlewyrchu'r realiti nad yw'r setliad datganoli sydd ar waith yn ariannu Llywodraeth Cymru i gael swyddogaeth gyfiawnder. Mae hefyd yn adlewyrchu natur drawsbynciol y gweithgarwch presennol sy'n ymwneud â chyfiawnder ar draws portffolios Gweinidogol.

Rydych wedi nodi nad y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad sy'n dal y gyllideb ar gyfer y portffolio cyfiawnder. Fodd bynnag, fel Cadeirydd Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn chwarae rhan ganolog wrth arwain yr Is-bwyllgor i gyflawni ei gylch gwaith. Mae'r Is-bwyllgor nid yn unig yn darparu'r cyfeiriad strategol a'r atebolrwydd ar gyfer cysondeb ar draws y Llywodraeth o swyddogaethau cyfiawnder sydd wedi'u datganoli i Gymru ar hyn o bryd, mae hefyd yn arwain ar ein hymwneud â Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen â thrafodaethau ar ddatganoli cyfiawnder.

Wrth gwrs, un o argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru oedd i Lywodraeth Cymru gryfhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar faterion yn ymwneud â chyfiawnder. Sefydlwyd Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder gennym i ymgymryd â'r dasg honno. Daeth y Comisiwn hefyd i'r casgliad y dylai cyfiawnder gael ei bennu a'i roi ar waith yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae’r Llywodraeth hon wedi gwneud yn glir ei bod am ddatblygu gweledigaeth y Comisiwn drwy’r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i fynd ar drywydd yr achos i ddatganoli plismona a chyfiawnder.

Rwy’n gobeithio bod yr ymateb hwn o gymorth i’r Pwyllgor, a’i waith o graffu ar gynigion Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23. Eto, i bwysleisio’r sylwadau rwyf eisoes wedi’u gwneud, fel rhan o’r rhaglen barhaus i drawsnewid cyfiawnder, byddwn yn ystyried a oes unrhyw ffordd y gallwn wella lefel yr wybodaeth rydym yn ei darparu am wariant ar gyfiawnder.

Yn gywir,



**MARK DRAKEFORD**

**Cynigion Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 – dyrannu adnoddau i weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder**

| MEG[1] | SPA | BEL | Dyraniad £000 | Adnoddau drwy BEL ar gyfer gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | Cyrff a Gwasanaethau Allanol | Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru | 490 | Cydlynu'r rhaglen Trawsnewid Cyfiawnder ar draws y Llywodraeth a'r ymateb i argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, cefnogi ymgysylltiad â Llywodraeth y DU ar ddatganoli cyfiawnder, datblygu'r sector cyfreithiol gan gynnwys sefydlu Cyngor Cyfraith Cymru, datblygu gwaith yn ymwneud â Thribiwnlysoedd Cymru gan gynnwys diwygio yn dilyn adolygiad Comisiwn y Gyfraith o dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | Cyrff a Gwasanaethau Allanol | Tribiwnlysoedd | 4,148 | Gweinyddu a chefnogi Tribiwnlysoedd Cymru drwy Uned Tribiwnlysoedd Cymru. |
| Yr Economi | Busnes Cymru / Entrepreneuriaeth ac Economi Ranbarthol | Busnes Cymru | 17,116 | Cymorth busnes pwrpasol i'r sector cyfreithiol yng Nghymru yn ystod 2022/23 drwy wasanaeth Busnes Cymru gydag ymyriadau yn canolbwyntio ar eu heriau o ran recriwtio, cadw a gwytnwch.[2] |
| Yr Economi | Cyflogadwyedd gan gynnwys Gwarant i Bobl Ifanc | Cyflogadwyedd gan gynnwys Gwarant i Bobl Ifanc | 90,936 | Cyflwyno argymhellion o adolygiad David Hanson o ddysgu ar gyfer troseddwyr.[3] |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cefnogi Plant | Cefnogi Plant | 3,865 | Cyllid ar gyfer polisi cyfiawnder teuluol a gweithgarwch sy'n caniatáu gostyngiadau yn nifer y plant sy'n dod i'r system ofal, canlyniadau a phrofiadau gwell i blant.[4] Caiff cyllid cylchol gwerth £850K ei ddarparu i awdurdodau lleol i gefnogi Gwasanaethau Myfyrdod drwy'r Grant Cynnal Refeniw. |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | CAFCASS Cymru | CAFCASS Cymru | 14,725 | Cyllid i CAFCASS Cymru. |

[1] "MEG": Prif Grŵp Gwariant, "SPA": Maes y Rhaglen Wariant, "BEL": Llinell Wariant yn y Gyllideb.
[2] Dyrannwyd cyllid i weithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder o fewn y gyllideb ddrafft ar gyfer y BEL honno.
[3] Gweler troednodyn 2.
[4] Gweler troednodyn 2.

| MEG | SPA | BEL | Dyraniad £000 | Adnoddau drwy BEL ar gyfer gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder |
|---|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cymorth i Deuluoedd a Phlant | Cefnogi Plant | 7,975 | Fframwaith i gefnogi newid cadarnhaol i'r rheini sydd mewn perygl o droseddu yng Nghymru, 2018-2023 a dileu'r amddiffyniad o "gost resymol".[5] |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | 99,715 | Dadansoddi a gwerthuso gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015.[6] |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Gwasanaethau Eirioli | Gwasanaethau Eirioli | 10,175 | O dan Gynllun Gweithredu Cymru ar Wybodaeth a Chyngor, sicrhau: cyllid grant wedi'i gynllunio a'i integreiddio'n strategol ar gyfer gwasanaethau cynghori ar lesiant cymdeithasol; gweithredu'r Fframwaith ar Ansawdd Cynghori; hyrwyddo rhwydweithio fel ffordd o helpu pobl i feithrin gwell dealltwriaeth o sut i ddefnyddio eu hawliau fel unigolion. |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 7,875 | Arwain y cyfeiriad strategol a gweithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, sy'n cynnwys amcan i sicrhau bod troseddwyr yn atebol a rhoi cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad yn seiliedig ar ddiogelwch dioddefwyr |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Glasbrintiau Troseddu Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid | Glasbrintiau Troseddu Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid | 1,075 | Mynd ar drywydd y Glasbrintiau ar: Droseddu Benywaidd, gan gynnwys canolfan breswyl a darparu Eiddo a Gymeradwywyd; a Chyfiawnder Ieuenctid. |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Cymorth a Diogelwch Cymunedol | Cymorth a Diogelwch Cymunedol | 22,625 | Cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu[7] |



[5] Gweler troednodyn 2.
[6] Gweler troednodyn 2.
[7] Gweler troednodyn 2.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

10 Rhagfyr 2021

Annwyl Mark

Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23

Fel rhan o'n gwaith craffu ar weithgareddau polisi cyfiawnder a deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth a ganlyn i ni, i'n helpu i graffu ar gynigion ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23.

**Cyfiawnder**

Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi ailsefydlu Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder a'i bod yn dilyn rhaglen waith ar argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru sydd o fewn ein cymhwysedd datganoledig. Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi dweud wrthym y bydd rhaglen waith ar gyfiawnder yn cael ei chyhoeddi yn y dyfodol agos. Hefyd, fe wnaethoch rannu rhaglen waith gyda'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd y llynedd, yn nodi blaenoriaethau ar draws pum llif gwaith.

Er bod y Cwnsler Cyffredinol yn cadeirio Is-bwyllgor y Cabinet, rydym yn ymwybodol nad yw'n ddeiliad cyllideb ac mae'n ymddangos bod cyllid ar gyfer cyflawni rhaglen gyfiawnder Llywodraeth Cymru wedi'i rannu ar draws sawl adran o'r llywodraeth. Felly, rydym yn gofyn am wybodaeth gennych ynglŷn â chyllid.

A allwch ddarparu gwybodaeth am yr hyn a ganlyn i ni:

> Unrhyw adnoddau yn y cynigion ynghylch y gyllideb ddrafft ar gyfer cyflawni'r rhaglen waith ar gyfiawnder a gynlluniwyd, pa Brif Grwpiau Gwariant (MEG) adrannol y maent yn rhan ohonynt a ffigurau cysylltiedig y Maes Rhaglenni Gwariant (SPA) a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL).



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Unrhyw adnoddau eraill yn y cynigion ynghylch y gyllideb ddrafft sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau cyfiawnder Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ar fynediad at gyfiawnder; cyfiawnder sifil a gweinyddol; cyfiawnder troseddol (gan gynnwys plismona); cyfiawnder teuluol; a'r sector cyfreithiol. Mewn perthynas â'r wybodaeth hon, a allech chi ddarparu gwybodaeth am ba Brif Grwpiau Gwariant (MEG) adrannol y maent yn rhan ohonynt a'r ffigurau SPA a BEL cysylltiedig.

**Capasiti deddfwriaethol**

Wrth roi tystiolaeth i ni, mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi tynnu ein sylw at raddfa'r gofynion deddfwriaethol ar Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'i rhaglen waith ddeddfwriaethol ei hun, gan gynnwys ei rhaglen ar gyfer gwella hygyrchedd cyfraith Cymru; deddfu ar gyfer Brexit; deddfu ar gyfer Covid; ac ymateb i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU. Tynnodd y Cwnsler Cyffredinol ein sylw hefyd at natur hynod fedrus yr arbenigedd sydd ei angen i gyflawni'r gofynion hyn. Felly, byddem yn croesawu gwybodaeth am:

Unrhyw adnoddau o fewn y gyllideb ddrafft i gynyddu capasiti o fewn Llywodraeth Cymru i fodloni'r gofynion deddfwriaethol hyn, gan gynnwys recriwtio staff newydd, cynyddu arbenigedd a chadw staff presennol, ac o bosibl prynu, secondio neu gaffael arbenigedd ychwanegol mewn modd arall.

Unrhyw adnoddau o fewn y gyllideb ddrafft i gyflawni rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella hygyrchedd cyfraith Cymru.

Byddem yn croesawu ymateb gennych erbyn 10 Ionawr 2022 i sicrhau bod gennym amser i drafod y wybodaeth, a chodi unrhyw faterion perthnasol, cyn y ddadl a drefnwyd yn y Cyfarfod Llawn ar y gyllideb ddrafft.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

22 Tachwedd 2021

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Hydref ynghylch materion pellach yr hoffai'r Pwyllgor eu codi mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi ac i'r Pwyllgor am ystyried y materion pwysig hyn. Rwyf wedi dwyn adroddiad y Pwyllgor at sylw'r Arglwydd Grimstone gan ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth y DU yn deall yn llwyr y pryderon sydd gennym ynglŷn â'r Bil.

Mewn ymateb i'ch cwestiynau penodol:-

*Roedd argymhelliad 4 yn ein hadroddiad yn gofyn ichi egluro pam mae pwerau cydredol i wneud rheoliadau yn briodol ar gyfer y Bil hwn o ystyried na fydd arfer pwerau o'r fath o reidrwydd yn rhoi cyfle i'r Senedd graffu ar reoliadau o'r fath. Er ein bod yn cydnabod eich datganiad mai "ein man cychwyn yw nad yw swyddogaethau [cydredol] yn briodol ar gyfer y Bil hwn", byddem yn croesawu eich eglurhad ynghylch pam ei bod yn briodol mynd heibio'r Senedd pan fydd modd gwneud is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â rheoleiddio cymwysterau proffesiynol sydd wedi'u datganoli.*

Nid fy mwriad yw peidio â rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu ar is-ddeddfwriaeth a wneir mewn perthynas â meysydd datganoledig, ac rwy'n cydnabod casgliad 1 yn adroddiad y Pwyllgor sy'n nodi eich pryderon ynghylch rôl y Senedd o ran y mater hwn. Hoffwn ddweud unwaith eto y credaf na ddylid cael unrhyw bwerau cydredol yn y Bil hwn. Er hyn, os yw Llywodraeth y DU yn parhau i gynnwys y pwerau hyn, yna byddaf yn dal ati i geisio gwelliant sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor gael cydsyniad gan Weinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig. Os bydd hyn yn llwyddiannus, yna yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar bwerau cydredol, sydd wedi'u rhannu â'r Pwyllgor, byddaf yn ysgrifennu at bwyllgorau perthnasol y Senedd i roi gwybod iddynt am unrhyw fwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU arfer y pŵer cydredol plws mewn perthynas â Chymru. Pan fo amser yn caniatáu, byddaf hefyd yn rhoi cyfle i'r Senedd fynegi barn cyn imi roi cydsyniad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*Roedd argymhelliad 7 ein hadroddiad yn gofyn ichi geisio gwelliant i'r perwyl bod cymal 14(5) yn cael ei dynnu o'r Bil. Unwaith eto, er ein bod yn derbyn bod y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad wedi cyfnewid gohebiaeth â Gweinidog Llywodraeth y DU ar y mater hwn, byddem yn croesawu eich eglurhad ynghylch a fyddwch yn ceisio'n ffurfiol y gwelliant i'r Bil fel y'i nodir yn yr argymhelliad. Wrth ofyn am yr eglurhad hwn, rydym yn ymwybodol o'ch ymateb pendant i argymhelliad 6, lle rydych wedi nodi'n glir y caiff gwelliant ei geisio i'r perwyl na all Gweinidogion y DU ddefnyddio'r pwerau yn y Bil i wneud rheoliadau sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006.*

Mae Llywodraeth y DU wedi ei gwneud yn glir y bydd yn estyn cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru yng nghymal 14 i'r un graddau â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gan gynnwys y gallu i wneud rheoliadau sy'n addasu swyddogaethau awdurdodau neilltuedig gyda chydsyniad Llywodraeth y DU, ond nid ymhellach na hynny. Rydym yn derbyn hyn, a hefyd yn derbyn bod cymal 14(2) a chymal 14(5) gyda'i gilydd yn cael yr un effaith ag alinio cymhwysedd deddfwriaethol a chymhwysedd gweithredol yn y ffordd hon. Felly, ni fyddaf yn ceisio gwelliant i ddileu cymal 14(5).

Fodd bynnag, mae gennyf bryderon sylweddol o hyd ynglŷn â'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd. Ar 28 Hydref, ysgrifennais at yr Arglwydd Grimstone i ofyn i Lywodraeth y DU gyflwyno gwelliant i sicrhau na all y pwerau yn y Bil gael eu defnyddio gan Weinidogion y DU i wneud rheoliadau sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Gofynnais hefyd am welliant a fyddai'n darparu ar gyfer eithriad penodol o ofynion cydsyniad Gweinidog y Goron ym mharagraff 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

15 Hydref 2021

Annwyl Jeremy,

Adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 6 Hydref 2021, lle gwnaethoch chi ymateb i'r argymhellion yn ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol. Hoffwn hefyd ddiolch i chi am ymgysylltu'n adeiladol yn ystod dadl y Cyfarfod Llawn yr wythnos diwethaf ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil.

Fe wnaethom ni drafod eich llythyr yn ein cyfarfod ddydd Llun yr wythnos hon, ac er ein bod yn croesawu'r datblygiadau cadarnhaol yn fawr, yn enwedig o ran argymhellion 6 a 9 yn ein hadroddiad, mae dau fater yr hoffem fynd ar eu trywydd ymhellach gyda chi.

1. Roedd argymhelliad 4 yn ein hadroddiad yn gofyn ichi egluro pam mae pwerau cydredol i wneud rheoliadau yn briodol ar gyfer y Bil hwn o ystyried na fydd arfer pwerau o'r fath o reidrwydd yn rhoi cyfle i'r Senedd graffu ar reoliadau o'r fath. Er ein bod yn cydnabod eich datganiad mai "ein man cychwyn yw nad yw swyddogaethau [cydredol] yn briodol ar gyfer y Bil hwn", byddem yn croesawu eich eglurhad ynghylch pam ei bod yn briodol mynd heibio'r Senedd pan fydd modd gwneud is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â rheoleiddio cymwysterau proffesiynol sydd wedi'u datganoli.

2. Roedd argymhelliad 7 ein hadroddiad yn gofyn ichi geisio gwelliant i'r perwyl bod cymal 14(5) yn cael ei dynnu o'r Bil. Unwaith eto, er ein bod yn derbyn bod y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad wedi cyfnewid gohebiaeth â Gweinidog Llywodraeth y DU ar y mater hwn, byddem yn croesawu eich eglurhad ynghylch a fyddwch yn ceisio'n ffurfiol y gwelliant i'r Bil fel y'i nodir yn yr argymhelliad. Wrth ofyn am yr eglurhad hwn, rydym yn ymwybodol o'ch ymateb pendant i argymhelliad 6, lle rydych wedi nodi'n glir y caiff

gwelliant ei geisio i'r perwyl na all Gweinidogion y DU ddefnyddio'r pwerau yn y Bil i wneud rheoliadau sy'n diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Yn olaf, rydym yn cydnabod nad oedd yr amserlenni ar gyfer craffu ar y Memorandwm hwn yn agos at fod yn ddelfrydol a bod pwysau amser o'r fath yn golygu bod pawb yn wynebu heriau. Fodd bynnag, hoffwn bwysleisio'n barchus pa mor bwysig yw hi bod ymatebion llawn gan Weinidogion i'n hadroddiadau, ac yn wir holl adroddiadau Pwyllgorau'r Senedd, ar gael i'r Aelodau cyn dadleuon perthnasol ar gynigion cydsyniad yn y dyfodol.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted ag sy'n gyfleus.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

# Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 11

**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

At: Cadeiryddion pwyllgorau'r Senedd, dros ebost

7 Ionawr 2022

Adolygiad o amserlen y pwyllgorau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau

Byddwch yn cofio bod Fforwm y Cadeiryddion, ar 16 Rhagfyr 2021, wedi ystyried, a chymeradwyo, y dull a awgrymwyd gan y Pwyllgor Busnes ar gyfer cynnal adolygiad o amserlen y pwyllgorau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau.

Mynegodd y Cadeiryddion amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol yn y cyfarfod ar 21 Rhagfyr, gyda rhai Cadeiryddion yn gweld yr amserlen bresennol yn heriol, tra mynegodd eraill bryderon ynghylch newid y dull presennol. Ni leisiwyd unrhyw bryderon ynghylch cylchoedd gwaith pwyllgorau, er y cynigir y bydd cylchoedd gwaith yn parhau i ddod o fewn cwmpas yr adolygiad hwn.

I adeiladu ar hyn, rwy'n eich gwahodd i drafod yr adolygiad gyda'ch pwyllgorau ac i roi ymateb ysgrifenedig i'r adolygiad. Ffocws yr elfen hon o'r adolygiad yw casglu barn gytûn pob pwyllgor.

Wrth wneud hynny, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried y cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad, a nifer o gwestiynau penodol. Er y bydd mynd i'r afael â'r cwestiynau yn ddefnyddiol, ni fwriedir iddynt fod yn rhagnodol.

Mae'r cylch gorchwyl, a'r cwestiynau, wedi'u hamgáu gyda'r llythyr hwn.

Rwyf hefyd yn amgáu copi o'r papur a ystyriwyd gan y Pwyllgor Busnes a Fforwm y Cadeiryddion.

Er yr hoffech efallai gyfeirio at adborth a gawsoch gan randdeiliaid allanol yn eich ymateb, nid yw'r Pwyllgor Busnes yn disgwyl i bwyllgorau ymgynghori â rhanddeiliaid yn yr amser sydd ar gael ar gyfer yr adolygiad hwn.

Mae'r amserlen ar gyfer yr adolygiad hwn yn dynn, gan fod y Pwyllgor Busnes yn anelu at weithredu unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r adolygiad ar ddechrau tymor yr haf 2022.

O ganlyniad, fel y cytunwyd yng nghyfarfod Fforwm y Cadeiryddion ar 16 Rhagfyr 2021, bydd angen i'r adolygiad gael ei gwblhau erbyn dechrau mis Mawrth er mwyn rhoi digon o amser i bwyllgorau gynllunio ar gyfer unrhyw newidiadau a wneir.

I alluogi hyn, cyflwynwch eich ymateb ysgrifenedig erbyn 12pm ddydd Gwener 4 Chwefror 2022. Mae hyn wythnos yn hwyrach na'r dyddiad cau gwreiddiol a gynigiwyd yn y dull a awgrymwyd.

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn â phwyllgorau, bydd Rheolwyr Busnes yn trafod yr adolygiad gyda'u Grwpiau, a bydd aelodau unigol pwyllgorau'n cael eu harolygu hefyd.

Bydd cynigion drafft, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd, yn cael eu trafod yng nghyfarfod Fforwm y Cadeiryddion ar 17 Chwefror 2022. Bydd y Pwyllgor Busnes wedyn yn gwneud penderfyniadau am amserlen a chylchoedd gwaith y pwyllgorau yn y dyfodol yng ngoleuni'r drafodaeth honno.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Chlerc Fforwm y Cadeiryddion, Alun Davidson, sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor Busnes gyda'r adolygiad hwn.

Elin Jones AS

Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**[Atodedig 1]**

# Y Pwyllgor Busnes: Adolygiad o amserlen y pwyllgorau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau

## Cylch gorchwyl a chwestiynau'r ymgynghoriad

### Cylch gorchwyl

- Adolygu'r dull presennol o ymdrin ag amserlen y pwyllgorau, a chylchoedd gwaith pwyllgorau, gyda'r bwriad o ganfod unrhyw newidiadau i'r dull a allai wella effeithiolrwydd pwyllgorau, wrth gynnal cydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae aelodau'r pwyllgorau yn ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a'r tu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

#### Amserlen – y sefyllfa bresennol

I ba raddau y mae'r dull presennol o ymdrin ag amserlen y pwyllgorau yn sicrhau:

- digon o amser i bwyllgorau ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol?
- digon o hyblygrwydd i fynd i'r afael â llwyth gwaith sy'n cyrraedd ei anterth yn y pwyllgorau a/neu ofynion busnes yn y dyfodol o ran capasiti pwyllgorau ychwanegol?
- cydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae Aelodau'n ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a thu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach?

#### Amserlen - dewisiadau amgen i'r sefyllfa bresennol

- Pa newidiadau y gellid eu gwneud i amserlen y pwyllgorau i wella effeithiolrwydd pwyllgorau, a chadw hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer busnes ychwanegol y pwyllgorau, a chydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae Aelodau'n ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a thu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach?
- Os ydym am wneud newidiadau i'r amserlen, pryd y dylid gweithredu'r newidiadau hyn?

#### Cylchoedd gwaith

- Ydych chi'n credu bod angen addasu cylch gwaith eich pwyllgor? Er enghraifft, cydbwyso gwaith ar draws pwyllgorau, a/neu wella llinellau atebolrwydd.

#### Mesur effeithiolrwydd eich pwyllgor

- A yw eich pwyllgor wedi sefydlu ffordd o asesu effeithiolrwydd ei waith?

*Gofynnir y cwestiwn hwn er mwyn penderfynu a ellir monitro unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r adolygiad hwn yn y cyd-destun hwn.*

**[Atodedig 2 - Papur Pwyllgor Busnes]**

# Adolygiad o amserlen y pwyllgorau, a chylchoedd gwaith y pwyllgorau: Ymdriniaeth ddrafft

## Diben

1. Darparu ymdriniaeth ddrafft o amserlen ddiwygiedig y pwyllgorau, a chylchoedd gwaith y pwyllgorau i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes..

## Cefndir

2. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen o gyfarfodydd bob pythefnos ar gyfer y pwyllgorau ar ddechrau'r Chweched Senedd, ar y sail y byddai'n sicrhau:

    - digon o amser cyfarfod i bwyllgorau gyflawni eu rolau;
    - cydbwysedd teg rhwng yr amser y disgwylir i aelodau ei dreulio ar waith pwyllgorau a'u cyfrifoldebau ehangach;
    - hyblygrwydd i bwyllgorau gynnal cyfarfodydd ychwanegol pan fo angen cwblhau gwaith â chyfyngiad amser iddo, a/neu fynd i'r afael â llwyth gwaith sy'n cyrraedd ei anterth; a
    - digon o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer pwyllgor ychwanegol yn y system, pe bai angen (y Pwyllgor Diben Arbennig ar hyn o bryd).

3. Yn ogystal ag amserlen bythefnosol, cynyddodd y Pwyllgor Busnes faint o amser sydd ar gael yn ystod yr wythnos y gallai pwyllgorau gyfarfod – mae hyn yn cynnwys boreau Llun a'r defnydd achlysurol o ddydd Gwener ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 2 o Filiau.

4. Cadwyd wythnosau gwarchodedig, i ddarparu amser penodedig i Fforwm y Cadeiryddion, y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, ac amser cyfarfod ychwanegol pellach i bwyllgorau ofyn amdanynt pe bai angen.

5. Un amcan eilaidd, a fynegwyd ar yr adeg y cytunwyd ar yr amserlen, oedd annog pwyllgorau i wneud defnydd effeithlon o'u hamser cyfarfod. Er enghraifft, cynnal trafodaethau bord gron untro ar gyfer rhanddeiliaid i gasglu ystod o dystiolaeth yr un pryd, yn hytrach na defnyddio'r dull "panel ar ôl panel" mwy traddodiadol o gasglu tystiolaeth dros nifer o wythnosau.

6. Cytunodd y Pwyllgor Busnes eisoes i adolygu amserlen y pwyllgorau, a chylchoedd gwaith y pwyllgorau, adeg y Pasg 2022 h.y. ar ôl dau dymor o weithredu.

7. Fodd bynnag, mae nifer y ceisiadau gan bwyllgorau am gyfarfodydd ychwanegol, a'r pryderon a fynegwyd gan rai pwyllgorau gyda'r amserlen bresennol, wedi arwain at gyflwyno'r adolygiad hwn.

8. Mae'r Llywydd hefyd wedi nodi yr ymgynghorir â Fforwm y Cadeiryddion ar yr adolygiad yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror.

9. Mae'r rhan fwyaf o'r pryderon a godwyd hyd yma wedi bod yn ymwneud ag amserlennu, yn hytrach na chylchoedd gwaith, er bod pryderon wedi'u codi ynghylch ehangder y cylch gwaith a bennwyd ar gyfer y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

10. Mae'r cynigion yn y papur hwn yn awgrymu adolygu'r amserlen a chylchoedd gwaith ar yr un pryd, oherwydd y rhyngddibyniaeth bosibl rhwng y ddau h.y. pe bai adolygiad o gylchoedd gwaith yn arwain at greu pwyllgor newydd, byddai angen i'r amserlen ystyried hyn.

11. Byddai'n bosibl gwahanu'r adolygiadau hyn, pe bai hynny'n well gan y Pwyllgor Busnes, er y gallai adolygiad o gylchoedd gwaith a gynhaliwyd yn ddiweddarach olygu bod angen newidiadau pellach i'r amserlen.

## Cylchoedd gorchwyl drafft

12. Argymhellir cylchoedd gorchwyl drafft yn y blwch isod::

> Cylchoedd gorchwyl drafft
>
> *Adolygu'r dull presennol o ymdrin ag amserlen y pwyllgorau, a chylchoedd gwaith pwyllgorau, gyda'r bwriad o ganfod unrhyw newidiadau i'r dull a allai wella effeithiolrwydd pwyllgorau, wrth gynnal cydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae aelodau'r pwyllgorau yn ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a'r tu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach.*

13. Bydd yr adolygiad yn ystyried y sefyllfa bresennol a'r opsiynau ar gyfer gweithredu'r amserlen yn y dyfodol.

14. O dan y penawdau isod, ceir cwestiynau sy'n ehangu ar y cylch gorchwyl, a gellid mynd i'r afael â hwy yn ystod yr adolygiad:

### Amserlen – y sefyllfa bresennol

A yw'r dull presennol o ymdrin ag amserlen y pwyllgorau yn sicrhau:

- digon o amser i bwyllgorau ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol?
- digon o hyblygrwydd i fynd i'r afael â llwyth gwaith sy'n cyrraedd ei anterth yn y pwyllgorau a/neu ofynion busnes yn y dyfodol o ran capasiti pwyllgorau ychwanegol?

- cydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae Aelodau'n ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a thu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach?

### Amserlen – dewisiadau amgen i'r sefyllfa bresennol

- Pa newidiadau y gellid eu gwneud i amserlen y pwyllgorau i wella effeithiolrwydd pwyllgorau, a chadw hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer busnes ychwanegol y pwyllgorau, a chydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae Aelodau'n ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a thu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach?

- Os ydym am wneud newidiadau i'r amserlen, pryd y dylid gweithredu'r newidiadau hyn?

### Cylchoedd gwaith

- Ystyried a ddylid addasu cylchoedd gwaith y pwyllgorau. Er enghraifft, cydbwyso gwaith ar draws pwyllgorau, a/neu wella llinellau atebolrwydd.

## Cyd-ddibyniaethau

**15.** Bydd angen i'r adolygiad ystyried:

- yr adnoddau a/neu'r cyfyngiadau technolegol o ran amserlennu, a sut y dylid rheoli hyn yn y dyfodol e.e. nifer y cyfarfodydd pwyllgor (a'r math o gyfarfodydd) y gellir eu cynnal ar yr un pryd; a'r

- effaith ar adnoddau Comisiwn y Senedd, gan gynnwys staffio, unrhyw newidiadau a gynigir o ganlyniad i'r adolygiad hwn (neu gynnal y sefyllfa bresennol, os mai hynny fyddai'r opsiwn a ffefrir).

## Effeithiolrwydd pwyllgorau

**16.** Gallai'r adolygiad ystyried i ba raddau y mae Pwyllgorau wedi sefydlu dulliau o asesu effeithiolrwydd eu gwaith, fel y gellir monitro unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r adolygiad hwn yn y cyd-destun hwn.

**17.** Gellid ymestyn hyn i gasglu unrhyw arloesedd o ran pwyllgorau sydd wedi codi mewn ymateb i amserlen bythefnosol (a mwy hyblyg) e.e. dulliau amgen o gasglu tystiolaeth, gwaith a wneir y tu allan i gyfarfodydd ac ati.

## Casglu tystiolaeth

**18.** Cynigir y dull canlynol o gasglu tystiolaeth:

- **Pwyllgorau –** mae'r Pwyllgor Busnes yn gwahodd pob pwyllgor i ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau a ofynnir gan yr adolygiad.

- **Aelodau'r Pwyllgorau –** gwahoddir aelodau'r pwyllgorau i gwblhau arolwg i gael eu barn ar yr amser a ddyrennir ar hyn o bryd ar gyfer gwaith pwyllgorau, eu barn ar beth ddylai'r cydbwysedd cywir fod rhwng yr amser a gaiff ei dreulio ar waith

pwyllgorau a'u cyfrifoldebau ehangach, a lefel y flaenoriaeth y gallant ei neilltuo i waith pwyllgorau.

- **Cadeiryddion** – ymgynghorir â Fforwm y Cadeiryddion ar unrhyw gynigion ar gyfer newid sy'n deillio o'r adolygiad, cyn i'r cynigion gael eu cwblhau.
- **Grwpiau Pleidiau** - Mae Rheolwyr Busnes yn gwahodd barn gan eu grwpiau pleidiau.
- **Data** – gellir darparu data ar y defnydd o amser neilltueg, amser cyfarfod ychwanegol, a mathau o weithgarwch y pwyllgorau.

## Amserlen

### Rhagfyr 2021

- Ymgynghori â Fforwm y Cadeiryddion ar gylch gorchwyl a dull o ymdrin â'r adolygiad (16 Rhagfyr).

### Ionawr 2022

- Cyfnod o dair wythnos o gasglu tystiolaeth (10 - 28 Ionawr).

### Chwefror 2022

- Y Pwyllgor Busnes yn ystyried cynigion drafft, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd (8 Chwefror)
- Fforwm y Cadeiryddion yn ystyried y cynigion drafft ac amseriad o ran cyflwyno unrhyw newidiadau i'r amserlen (17 Chwefror).

### Mawrth 2022

- Y Pwyllgor Busnes yn cadarnhau cynigion (1 Mawrth).
- Y Pwyllgor Busnes yn cyhoeddi adroddiad ac yn cyflwyno unrhyw gynigion sydd eu hangen i weithredu newidiadau i gylchoedd gwaith (os bydd angen rhai) (i'w wneud yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Mawrth).

### Ebrill 2022

- Newidiadau i'r amserlen i'w gweithredu ar ddechrau tymor yr haf.

## Ymgynghori â Fforwm y Cadeiryddion

**19.** Er bod awydd i ddatrys trafferthion canfyddedig gyda'r amserlen yn gyflym, mae tensiwn rhwng hyn a'r amser arweiniol sydd ei angen i bwyllgorau gynllunio eu gwaith.

**20.** Efallai yr hoffai'r Pwyllgor Busnes ymgynghori â Fforwm y Cadeiryddion, yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr, ar gwmpas ac amserlen yr adolygiad cyn gwneud penderfyniad terfynol.